Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2025/26

# Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb CNC

Chwefror 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 1

Ein cynigion ar gyfer taliadau ..... 1

- Cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ..... 2

Sut y gwnaethom ymgynghori ..... 2

Sut y gwnaethom ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 2

Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 3

- Nifer yr ymatebion: ..... 3
- Sectorau a gynrychiolir: ..... 3
- Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr: ..... 3
- Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ..... 6
- Rheolau safonol ar gyfer gwastraff sy'n destun y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ..... 11
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 11
- Gwastraff y Rhestr Werdd – Erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Gwastraff a ddargedwir ..... 12
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 13
- Hysbysiad safle gwastraff peryglus ..... 14
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 14
- Cydsyniadau a.166 Deddf y Diwydiant Dŵr – adnewyddu falfiau sgwrio bob pum mlynedd ..... 15
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 15
- Adnoddau dŵr – adnewyddu o dan yr un telerau / telerau gwahanol ..... 16
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 16
- Trwyddedu rhywogaethau ..... 18
  - Cynnig ..... 18
  - Datblygiadau deiliaid tai ..... 18
  - Gweithgareddau eraill y mae angen trwydded ar eu cyfer ..... 18
  - Trwyddedau rheoli adar ..... 19
  - Gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir ..... 19
  - Hepgor taliadau am drwyddedau rhywogaethau ..... 19
  - Cwestiwn yr ymgynghoriad: ..... 21
- Cynnydd chwyddiannol ac adennill costau arfaethedig i gyfundrefnau mewn diffyg ..... 23

Cwestiwn yr ymgynghoriad: 24
Sylwadau cyffredinol 24
Ystyriaethau o ran y Gymraeg 34
A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? 34
A oes modd i ni gynyddu defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? 34
A oes unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl o dan anfantais o ran defnyddio'r Gymraeg? 35
A ydych yn credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? 35
Y camau nesaf 35
Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar daliadau 36
Atodiad 2 – Ymatebion ysgrifenedig llawn i'r ymgynghoriad 36
Atodiad 3 – Geirfa 50

## Cyflwyniad

Fel corff Llywodraeth Cymru (LlC), rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau rheoleiddio gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio, lle bo hynny'n bosibl, fel na chaiff y gwasanaethau hynny eu hariannu drwy drethi cyffredinol.

Nid oedd llawer o ffioedd a thaliadau CNC wedi'u hadolygu'n llawn ers sawl blwyddyn. Gan ddechrau gyda'r adolygiad strategol diweddar o godi tâl am geisiadau, rydym yn parhau â'n rhaglen waith hirdymor i sicrhau bod taliadau ar draws CNC yn adlewyrchu costau.

## Ein cynigion ar gyfer taliadau

Rydym yn cynnig cynyddu'r arian a gasglwn o'n cynlluniau codi tâl er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau'n llawn, er mwyn cyflawni ein dull rheoleiddio a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd Cymru.

Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ogystal â rheolau Trysorlys EF a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol, gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn taliadau. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Ni fyddai fel arfer yn briodol ceisio cymorth grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai ffioedd dalu amdanynt, ac ni allwn roi cymhorthdal i weithgareddau o ffrydiau incwm eraill.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau rheoleiddio, gan addasu ein polisi a'n hymagweddau at risg neu i'n dyletswyddau statudol, gan sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl. Bydd unrhyw adolygiad o daliadau yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'n prosesau a'n costau sylfaenol. Mae angen i ni hefyd ddarparu gwasanaeth o fewn tirwedd reoleiddiol neu dirwedd ddeddfwriaethol esblygol, sy'n aml yn dod â chymhlethdod cynyddol neu gynnydd yn y galw a all effeithio ar lefelau neu effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae gwelliannau rydym yn eu gwneud yn helpu i symleiddio prosesau; fodd bynnag, os cawn ein hysgogi gan dystiolaeth neu ddyletswyddau statudol i wneud mwy, byddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn ceisio gwneud hyn mor effeithlon â phosibl wrth gyflawni diben y ddyletswydd honno.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adennill costau'n llawn yn cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddiol, atal llygredd, a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae cyllid cynaliadwy yn golygu y gallwn gynnal ein cymwyseddau arbenigol, sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth a thrwyddedau, ac addasu gwaith rheoleiddio. Mae'n bwysig inni addasu rheoleiddio a chyllid i gyflawni'r lefel o reoleiddio sydd ei hangen yng Nghymru er mwyn atal llygredd a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

## Cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Rhagolwg diweddaraf y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer 2025/26 gan Drysorlys EF yw 2.8%. Fodd bynnag, byddwn yn cymhwyso 3% i feysydd penodol, megis trwyddedu, fel yr amlinellwyd yn ein hymgynghoriad, gan ei bod yn debygol y bydd pwysau chwyddiant parhaus. Bydd unrhyw ffioedd a thaliadau rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn parhau yn eu lle ar gyfraddau cyfredol 2024/25 ar gyfer 2025/26.

# Sut y gwnaethom ymgynghori

Cyn ein hymgynghoriad ym mis Hydref 2024, cynhaliwyd cyfarfod o grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau i rannu'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig a'n methodoleg, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a busnesau o'n cynigion. Cafodd Llywodraeth Cymru ei diweddaru'n gyson trwy gydol y broses hon.

Pan lansiwyd yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd papurau briffio i'r cyfryngau a defnyddio postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, gan geisio mewnbwn gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach. Anfonwyd e-byst uniongyrchol at dros 300 o unigolion, busnesau a chyrff masnach. Dilynwyd hyn gyda negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost atgoffa uniongyrchol hanner ffordd drwy'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein trwy hyb ymgynghori CNC, a oedd ar agor rhwng 18 Hydref 2024 a 12 Ionawr 2025. Roedd yr opsiynau ymgynghori a'r opsiynau ymateb ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym hefyd wedi derbyn ymatebion drwy'r post a thrwy e-bost.

# Sut y gwnaethom ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Defnyddiwyd ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein ddull dadansoddi meintiol (er enghraifft, graddfa Likert: '*Cytuno'n gryf'* i '*Anghytuno'n gryf'*) a dull ansoddol, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r themâu yn achos yr ymatebion testun rhydd. Mae hwn yn ddull a gydnabyddir yn eang o ddadansoddi data ansoddol a oedd yn ein galluogi i lunio mewnwelediadau a chysyniadau a oedd yn deillio o'r ymatebion.

Rydym wedi amlinellu'r adborth a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad a'n hymatebion isod. Lle bo angen, mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn yr adran 'dywedoch chi' isod er mwyn crynhoi'r pwyntiau allweddol. Mae testun llawn yr holl ymatebion i'w weld yn Atodiad 2.

Mae llawer o'r wybodaeth hon yn ddienw ond, lle mae ymatebwr wedi cynnwys enw ei sefydliad yn ei ymateb, nid yw wedi'i ddileu.

# Ymatebion i’r ymgynghoriad

## Nifer yr ymatebion:

Derbyniwyd tri ar ddeg o ymatebion drwy’r ymgynghoriad. Derbyniwyd un o’r rhain gan unigolyn, derbyniwyd deg gan sefydliadau (gan gynnwys cyrff masnach) ar ran eu haelodau, a derbyniwyd dau gan fusnesau. Cyflwynwyd tri o’r ymatebion gan sefydliadau fel ymatebion ysgrifenedig yn unig yn hytrach na thrwy ein hyb ymgynghori.

Lle bo’n bosibl, rydym wedi grwpio pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau testun rhydd yr ymgynghoriad yn themâu sy’n codi dro ar ôl tro.

## Sectorau a gynrychiolir:

Derbyniwyd ymatebion gan unigolion, sefydliadau a busnesau yn y sectorau canlynol:

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (3)
- Cyflenwyr trydan, nwy, ager a systemau aerdymheru (2)
- Gweithgynhyrchu (1)
- Mwyngloddio a chwarela (1)
- Gweithgareddau gwasanaeth eraill (2)
- Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (1)
- Gweithgareddau cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer (3)

## Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr:


- Cymru gyfan
- Gogledd-ddwyrain (Sir Ddinbych, Sir y Fflint neu Wrecsam)
- De-orllewin (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro neu Abertawe)
- De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd neu Dorfaen)
- Lleoliad heb ei nodi / arall

## A oes gennych drwydded, hawlen neu gydsyniad a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?

**Ymatebion gan unigolion:**





**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**





## Dylid talu am wasanaethau rheoleiddio CNC gan y rhai sy’n eu defnyddio ac nid gan y trethdalwr neu dalwyr taliadau eraill. Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno?


**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




Heb wahaniaethu rhwng unigolion a sefydliadau/busnesau




Dywedoch chi:

- Rydym yn ymwybodol o weithgarwch parhaus Llywodraeth Cymru i ailffocysu ei hadnoddau ar gamau gweithredu a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar natur, yr hinsawdd, a lleihau llygredd. Rydym yn cefnogi CNC i adennill cost y gwaith hwn, sy’n gymhleth ac sy’n gofyn am ymdrech ychwanegol i adolygu a

gwneud penderfyniadau. Mae'n deg disgwyl y dylai CNC gael cydnabyddiaeth ariannol gan weithredwyr am ei waith.

- Credwn, yng nghyd-destun trwyddedu, nad yw cymhwyso'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn gwbl glir. Lle y gellir sicrhau cyflenwad nwyddau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys diogelwch bwyd a bywiogrwydd gwledig a budd economaidd-gymdeithasol drwy'r gyfundrefn drwyddedu, credwn y gellir gwneud achos cymhellol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r drefn codi tâl drwy gymorth grant. Mae angen hefyd i CNC gydnabod y bydd ffermwyr yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ei amcanion amgylcheddol wrth symud ymlaen a bod angen hyfywedd economaidd i fusnesau fferm sicrhau manteision ehangach i gymdeithas. Mae trefn reoleiddio sy'n galluogi eraill, gan gynnwys trwyddedu, yn hanfodol i ffermwyr ddatblygu ac adeiladu gwytnwch economaidd, ac felly gwytnwch amgylcheddol, ar gyfer y dyfodol.

<u>Ein hymateb:</u>

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gost i CNC o ddarparu gwasanaethau rheoleiddio gael ei hariannu gan y rhai sy'n cael budd gan y gwasanaeth hwnnw yn hytrach na ffynonellau incwm eraill megis trethiant cyffredinol (cymorth grant). Mae hyn yn cyd-fynd â rheolau *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a Thrysorlys EF.

Credwn y byddai'n afresymol ceisio cyllid amgen ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio lle dylid talu am y rhain gan y rheini sy'n elwa'n uniongyrchol o'r gwasanaeth a ddarparwn iddynt. Ni allwn roi cymhorthdal i un gyfundrefn reoleiddio o ffrydiau incwm eraill.

Yn yr un modd, ni allwn roi cymhorthdal ar gyfer unrhyw un sector busnes hyd yn oed pan fo'r gweithgaredd a reoleiddir hefyd yn darparu rhywfaint o fudd ehangach drwy ei weithrediad. Mewn amgylchiadau eithriadol penodol ac ar gyfer gweithgareddau anfasnachol, mae CNC yn cefnogi nifer fach o weithgareddau drwy hepgoriadau, er bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.


Rydym yn rheoleiddio llawer o unigolion a busnesau drwy amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Mae gan lawer o'r gweithgarwch rydym yn ei reoleiddio elfennau sydd o fudd cymdeithasol, a'r potensial i gefnogi ein rôl o ran darparu llesiant, a gallai ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Yn aml, mae angen i ni reoleiddio'r gweithgareddau hyn i gydbwyso'n ofalus unrhyw risg o niwed sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae rheoleiddio yn darparu budd cymdeithasol drwy ddarparu amddiffyniad amgylcheddol ac atal niwed. Mae ymdrech reoleiddiol felly yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, bod byd natur yn gallu adfer, a'n bod yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd.


Rydym yn dilyn y Cod Rheoleiddwyr, gan weithio'n rheolaidd gyda'r rhai rydym yn eu rheoleiddio i gymhwyso ac addasu rheoleiddio mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau a chynnal ymagwedd deg a chyson ar draws sectorau.

## A ydych chi’n meddwl bod ffyrdd eraill a fyddai’n well o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




Dywedoch chi:

- Dim ymateb.

## Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU

Disgwylir y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU CNC yn wynebu diffyg o -£0.4 miliwn erbyn diwedd 2024/25.

Roedd angen i ni ddiwygio y taliadau a godir gennym i adennill y diffyg hwn a sicrhau bod ein taliadau yn y dyfodol yn adlewyrchu cost a chymhlethdod y gwaith a wneir gan CNC.

Yn ogystal â’r newidiadau a gynigiwyd i’n taliadau, rydym wedi cynnig taliadau newydd ar gyfer:

- Gweinyddu hysbysiadau cosb sifil
- Costau cyn ymgeisio
- Casglu data sylfaenol ar allyrwyr bach iawn
- Codir tâl am ychwanegu gweithgaredd newydd at drwydded fel cais newydd
- Codir ffi ymgeisio safonol ynghyd â chyfradd ychwanegol fesul awr ar geisiadau cyntaf o’r fath (lle bo’n berthnasol)

Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Ar ôl ystyried ein cynigion a’r wybodaeth ategol, i ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno â’n cynigion codi tâl ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU?

O’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

| Anghytuno’n gryf 13% | Anghytuno 12% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 25% | Cytuno 37% | Cytuno’n gryf 13% |
|---|---|---|---|---|

**Rheoli’r diffyg**

Dywedoch chi:

- Nodir bod diffyg o -£0.4 miliwn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU CNC a bod llawer o’r taliadau’n cynyddu ac ambell un yn gostwng o ganlyniad.

Ein hymateb

Mae’r taliadau arfaethedig yn cyfrifo adennill y diffyg o -£0.4 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Ers hynny, rydym wedi sicrhau £100,000 o gyllid ychwanegol a fydd yn lleihau’r diffyg y mae angen inni ei adennill.

O ganlyniad, mae taliadau parhau arfaethedig Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU wedi’u diwygio i lawr 3.1% ac mae taliadau trwyddedu arfaethedig wedi’u diwygio i lawr 1.3% o’r rhai yr ymgynghorwyd arnynt ar gyfer 2025/26.

**Fforddiadwyedd**

Dywedoch chi:

- Mae Fuels Industry UK yn credu ei bod yn deg i weithredwyr ddisgwyl y bydd y taliadau am ddilysu allyriadau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn deg ac yn gymesur.
- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru o’r farn y gallai codi prisiau i rai (yn enwedig ar gyfer ysbytai ac allyrwyr bach) fod yn heriol i weithredwyr eu fforddio. Byddem felly yn fwy cefnogol i gynnydd graddedig.
- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn pryderu bod cyllideb y GIG eisoes dan bwysau, ac y gallai’r cynnydd mewn prisiau arwain at wyro cyllid oddi wrth wasanaethau gofal iechyd hanfodol. Bydd cyflwyno’r newid hwn gydag amser cyfyngedig i baratoi ar gyfer y cynnydd yn cael effaith ar y gwasanaethau hyn.
- Ar gyfer gosodiadau sy’n derbyn dyraniad am ddim, bydd y newidiadau parhau arfaethedig yn arwain at gynnydd sylweddol mewn ffioedd blynyddol o gymharu â Lloegr, gyda £4,790 yn cael ei gynnig ar gyfer Lloegr o’i gymharu â rhwng £7,486 a £15,867 yng Nghymru. Sut gall CNC gyfiawnhau codi tâl sy’n cymaint mwy? Mae’r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn argymell yn gryf bod CNC yn cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddeall sut y gallant gyflawni’r un gweithgaredd rheoleiddio yn llawer mwy effeithlon ac am bris sy’n sylweddol ratach. Mae gwahaniaethau sylweddol o’r fath mewn costau rheoleiddio yn rhoi safleoedd yng Nghymru o dan anfantais gystadleuol o gymharu â safleoedd cystadleuwyr yn Lloegr a rhaid osgoi hyn. Mae’r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn gwrthwynebu’n gryf bod taliadau CNC yn sylweddol uwch na’r rhai a godir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Mae gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol bryderon hefyd ynghylch y taliadau newydd am drwyddedau, amrywio trwyddedau, a throsglwyddo, ildio a dirymu trwyddedau. Maent yn sylweddol uwch na thaliadau Asiantaeth yr Amgylchedd fel y nodir isod. Mae CNC yn cynyddu rhai o'r taliadau hyn fwy na 100%, tra bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi lleihau sawl un, felly, unwaith eto, sut y gall CNC gyfiawnhau codi taliadau sy'n gymaint mwy?

<u>Ein hymateb:</u>

Yn hanesyddol, nid yw CNC wedi adennill costau'n llawn ar gyfer gwaith mewn perthynas â'r Cynllun Masnachu Allyriadau, gan godi tâl sy'n sylweddol is na rheoleiddwyr eraill y DU ers sawl blwyddyn. Ni fyddwn yn gallu cynnal y gwasanaethau hyn os na fyddwn yn cynyddu'r ffioedd a'r taliadau yn unol â'r diffyg sydd gennym a'n costau rheolaidd.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y taliadau arfaethedig yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn a grëwyd gan beidio ag adennill digon yn y gorffennol.

Mae CNC yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill i ddeall cost, ond nid yw cymharu taliadau rhwng sefydliadau rheoleiddio yn syml a gallant amrywio am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft, mae'r gwaith o ddatblygu polisi ar raddfa wahanol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu yn aml bod angen i CNC ddatblygu polisi ar gyfer llai o gwsmeriaid o gymharu â rhai o reoleiddwyr eraill y DU.

Ar ôl cymharu ein taliadau parhau arfaethedig â'r rhai a godir gan reoleiddwyr eraill y DU, rydym o'r farn bod ein cynigion yn gymharol debyg.

Bydd y 49% o ddeiliaid trwyddedau yn y ddau gategori gosodiadau isaf (ysbytai neu allyrwyr bach a Chategori A) yn gweld eu tâl parhau yn cynyddu, er bod taliadau diwygiedig CNC yn parhau i fod yn is na'r rhai a godir gan reoleiddwyr eraill y DU.

Bydd taliadau allyrwyr Categori B a Chategori C (7% o ddeiliaid trwyddedau) yn gostwng.

Mae'r cynnydd mwyaf yn ymwneud â thrwyddedau gyda mwy nag un is-osodiad. Bydd y tâl uwch am drwyddedau gydag un neu ddau o is-osodiadau yn effeithio ar 37% o ddeiliaid trwyddedau. Bydd y tâl uwch mwyaf am dri neu fwy o is-osodiadau yn effeithio ar 6% o ddeiliaid trwyddedau. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cymhlethdod ychwanegol a'r gwaith dilynol a wneir ar y categorïau amrywiol gan staff CNC.

Mae'r taliadau a gynigir ar gyfer 2025/26 yn cynnwys adennill diffyg o £400,000 yn y gyfundrefn hon dros bum mlynedd. Mae CNC wedi sicrhau swm ychwanegol a fydd yn cael ei ddefnyddio i leihau'r diffyg ac a fydd yn lleihau'r taliadau a gynigir yn yr ymgynghoriad ychydig.

Fel rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gall safleoedd gyda mwy na dau o is-osodiadau wneud cais i dderbyn dyraniad rhad ac am ddim o lwfansau allyriadau. Er bod y dyraniad ei hun yn rhad ac am ddim i weithredwyr, mae rheoli'r dyraniad hwnnw ac adolygu adroddiadau newid lefel gweithgarwch i sicrhau tegwch a chywirdeb yn gofyn am gryn dipyn o amser staff CNC. Adlewyrchir hyn yn y taliadau a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad hwn.

Fel diweddariad pellach, rydym wedi sicrhau swm bach o arian i dalu costau gweinyddu hysbysiadau cosb sifil ac felly ni fyddwn yn cyflwyno tâl newydd am y gweithgaredd hwn.

**Canllawiau a chyngor cyn ymgeisio**

Dywedoch chi:

- Byddai Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn gefnogol iawn i welliant yn y canllawiau a'r gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan CNC i wella ansawdd ceisiadau, a ddylai yn ei dro wella effeithlonrwydd y broses benderfynu a chostau/ffioedd wedi hynny.

Ein hymateb:

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi ymrwymo i gyhoeddi a diweddaru canllawiau. Mae CNC fel arfer yn gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill y DU i gynhyrchu canllawiau.

Darperir lefel benodol o gyngor cyn ymgeisio sylfaenol. Mae hyn er mwyn helpu cwsmeriaid i lenwi ffurflenni cais, egluro canllawiau, a chyfeirio at arfer gorau a safonau'r diwydiant. Efallai y byddwn hefyd yn cytuno i ddarparu canllawiau ychwanegol yn ddi-dâl lle mae bylchau amlwg ym mholisi a chanllawiau CNC, lle mae'r gweithgaredd a gynigir yn newydd neu mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd, neu lle mae angen ymchwilio neu dreialu gweithgareddau i gadarnhau eu hyfywedd neu eu heffeithiau.

Codir tâl am ddarparu cyngor pellach a bydd ar gael pan fo gan CNC y gallu a'r arbenigedd i gyflawni'r cais. Lle nad yw CNC yn gallu darparu'r gwasanaeth y mae ymgeisydd yn gofyn amdano, byddem yn awgrymu y dylid cael cymorth arbenigol allanol.

**Effeithlonrwydd**

Dywedoch chi:

- Mae'n bwysig bod CNC yn gweithredu gweithgarwch rheoleiddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y modd mwyaf effeithlon. Byddai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn disgwyl i daliadau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar draws yr holl reoleiddwyr gael eu halinio'n fras o ystyried bod y gweithgaredd yr un fath, ble bynnag y lleolir y gosodiad. Rydym yn gwrthwynebu'n gryf i CNC godi tâl sylweddol uwch nag Asiantaeth yr Amgylchedd. Rhaid i'r taliadau hefyd adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i gyfranogwyr, felly, lle mae cynnydd, byddem yn disgwyl i ansawdd y gwasanaeth i fusnesau wella.
- Cydnabyddir y gallai'r newid o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU arwain at ansicrwydd ynghylch yr ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen ar CNC. Fodd bynnag, mae maint y newidiadau'n awgrymu nad yw hyn wedi'i ddeall yn dda iawn ac mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn arbennig o bryderus bod y taliadau arfaethedig yn amrywio'n sylweddol oddi wrth daliadau Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd yn Lloegr.

- Mae Fuels Industry UK yn ymwybodol bod gwaith ychwanegol yn cael ei greu mewn rhai achosion o ganlyniad i CNC a'i ymgynghorwyr gynnal dadansoddiad ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ganfyddir yn rhesymol a chymesur. Bydd data monitro eisoes wedi'i feintioli'n gywir, ar draul y gweithredwr, gan ddilyswr annibynnol o restr gymeradwy CNC cyn ei gyflwyno. Yn achlysurol, yn ystod proses adrodd a dilysu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae gweithredwyr yn gweld lefel y dadansoddiad gan CNC, ac mae ei ymgynghorwyr yn mynd y tu hwnt i fod yn rhesymol a chymesur.
- A fydd lwfansau'n cael eu rheoleiddio'n dynn?

Ein hymateb:

Mae CNC wedi bod yn codi ffioedd llawer is na rheoleiddwyr eraill dros nifer o flynyddoedd a dyna pam yr oedd angen adolygiad sylweddol o ffioedd a thaliadau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Cododd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ac Asiantaeth yr Amgylchedd eu ffioedd cyn CNC. Dewisodd CNC gymryd mwy o amser i gael data ar yr amser sydd ei angen ar gyfer proses Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, er mwyn sicrhau bod gennym ni ddata dibynadwy i fod yn sail i'r taliadau. Yn anffodus, mae hyn wedi cyfrannu at y diffyg mwy sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Yn ogystal, nid yw CNC yn elwa ar yr un arbedion maint sydd gan reoleiddwyr mwy eraill y DU.

Mae maint y newid yn nhaliadau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ymwneud â maint yr ymdrech reoleiddiol yn hytrach na'r newid o'r UE i'r DU. Wedi dweud hynny, mae newid rhwng yr UE a'r DU wedi arwain at fwy o ymdrech reoleiddiol, sy'n gysylltiedig â chyflwyno adroddiadau ar lefelau gweithgarwch.

Mae cyflwyno adroddiadau ar lefelau gweithgarwch ar gyfer safleoedd sy'n gymwys i gael dyraniad am ddim o 2021 wedi cynyddu costau rheoleiddio'n sylweddol. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â phob safle sy'n gwneud cais am ddyraniad rhad ac am ddim beth bynnag fo nifer yr is-osodiadau. Fodd bynnag, dangosodd ein hadolygiad, wrth i nifer yr is-osodiadau gynyddu, fod yr ymdrech reoleiddiol sy'n gysylltiedig hefyd yn cynyddu. Mae'n ofyniad deddfwriaethol i'r holl adroddiadau ar lefel gweithgarwch gael eu hadolygu gan reoleiddwyr, gan sicrhau bod cadernid y cyflwyniadau a goblygiadau effeithlonrwydd ynni yn cael eu hasesu er mwyn gallu cyfrifo dyraniadau am ddim yn gywir. Gan fod y broses dyrannu am ddim yn wirfoddol i weithredwyr, nid ydym yn credu ei bod yn afresymol cynyddu'r tâl parhau cyfatebol fesul gweithredwr i dalu ein costau ar gyfer y gwaith cynyddol a wneir.

Rydym wedi adolygu ein proses ac yn anghytuno bod gwaith diangen yn cael ei wneud gan staff CNC ar ddata monitro ceisiadau. Byddem yn annog gweithredwyr i roi manylion i ni am unrhyw enghreifftiau penodol fel y gallwn ymchwilio ymhellach.

Rydym yn ymdrechu i ddarparu dull seiliedig ar risg ar gyfer y gwaith yr ydym yn ei wneud ac rydym yn fodlon bod y gwaith a wneir gan staff CNC yn rhesymol ac yn gymesur. Dangosodd ein dadansoddiad fod mwy o ymdrech reoleiddiol yn cael ei gwneud ar y safleoedd mwy cymhleth ac fe adlewyrchir hyn yn y taliadau a amlinellir yn ein cynllun.

## Rheolau safonol ar gyfer gwastraff sy’n destun y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Rydym wedi creu tair trwydded rheolau safonol newydd ar gyfer gwastraff mewn perthynas â theiars, matresi a gwastraff ailgylchadwy.

O ganlyniad i ddiwygiadau i esemptiadau gwastraff sy’n cael eu gwneud gan y llywodraeth er mwyn gwella cydymffurfedd ag esemptiadau a lleihau troseddau gwastraff, rydym yn disgwyl y bydd angen i fwy o weithgareddau gael eu rheoleiddio drwy drwyddedau amgylcheddol. Er enghraifft, ar ôl i esemptiad T8 gael ei dynnu’n ôl, bydd angen i bawb sy’n trin teiars gael trwydded yn y dyfodol.

Bydd y trwyddedau rheolau safonol newydd hyn yn helpu rhai gweithredwyr i newid o’r gyfundrefn esemptiadau i’r gyfundrefn drwyddedu. Maent wedi’u hanelu at weithredwyr safleoedd gwastraff sy’n gweithredu ar hyn o bryd o dan esemptiadau T8 (ailgylchu teiars), T12 (ailgylchu matresi) a T4 (bwndelu papur, cardbord a phlastig).

Mae’r taliadau a gynigir ar gyfer y tair trwydded rheolau safonol newydd hyn yn unol â thrwyddedau presennol tebyg ond byddant hefyd yn ddarostyngedig i’r cynnydd arfaethedig mewn perthynas â chwyddiant neu reoli’r diffyg yn 2025/26, o ystyried diffyg cyffredinol y gyfundrefn gwastraff o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a’r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynigion codi tâl am drwyddedau rheolau safonol gwastraff?

O’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:




**Lefel y gwasanaeth**

Dywedoch chi:

- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn cytuno â’r cynnydd mewn prisiau, ond hoffem gyfleu’r disgwyliad y bydd lefelau gwasanaeth yn gwella o ganlyniad.

Ein hymateb:

Bwriad y taliadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod yn adennill costau ar gyfer y gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae ein cynigion yn seiliedig ar yr ymdrech reoleiddiol bresennol. Ein bwriad yw cynnal adolygiadau mwy manwl o daliadau parhau a lefelau gwasanaeth cysylltiedig dros y blynyddoedd i ddod.

**Fforddiadwyedd**

Dywedoch chi:

- Hoffai Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru hefyd dynnu sylw at y ffaith y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd rheoleiddio yn cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid cwmnïau gwastraff, a fydd yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sydd â chyllidebau dan bwysau mawr.
- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y cynnydd hwn i fod i ddigwydd mewn blwyddyn ariannol sydd hefyd yn gweld lansiad system tracio gwastraff ddigidol, sydd hefyd yn ychwanegiad ariannol i gwmnïau gwastraff.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch.

Rhaid i CNC weithio yn unol ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na ddylem wneud elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym yn ceisio adennill ein costau yn unig, ac ni allwn roi cymhorthdal o ffrydiau incwm anghysylltiedig eraill. Yn yr un modd, ni allwn roi cymhorthdal i'r taliadau ar gyfer unrhyw sector busnes penodol.

Byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio, atal llygredd, a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Gan gydnabod adborth gan randdeiliaid y diwydiant a phartneriaid cyflawni yn nodi y byddai cyflwyno system tracio gwastraff ddigidol erbyn mis Ebrill 2025 yn cyflwyno heriau sylweddol, mae gweinidogion o Lywodraeth y DU, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, a Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na fydd y prosiect yn dod yn orfodol ym mis Ebrill 2025. Mae'r dyddiad gweithredu wedi'i ohirio tan fis Ebrill 2026. Disgwylir diweddariadau pellach ar linellau amser ym mis Mai 2025.

**Gwobrwyo perfformiad da**

Dywedoch chi:

- A ddylai fod cymhellion ar gyfer perfformiad gweithredu da?

Ein hymateb:

Rydym yn cymell perfformiad da drwy'r addasiad cydymffurfio a gymhwysir i daliadau parhau. Mae ffioedd parhau uwch ar safleoedd sy'n perfformio'n wael er mwyn ariannu ymdrech reoleiddiol ychwanegol ar y safleoedd hynny gyda'r nod o ddod â nhw yn ôl i gydymffurfio.

## Gwastraff y Rhestr Werdd – Erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Gwastraff a ddargedwir

Gan ragweld y bydd gan CNC ddyletswyddau rheoleiddiol newydd ar gyfer Erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Gwastraff a ddargedwir, a elwir hefyd yn rheolaethau 'gwastraff y Rhestr Werdd', a phwerau i lunio cynllun codi tâl ar gyfer y gwaith newydd hwn,bydd y tâl yr ydym yn cynnig ei godi ar gyfer gwastraff y Rhestr Werdd

yn adennill cost ein gweithgareddau rheoleiddio yn y dyfodol ar gyfer y ffrwd wastraff hon.

Ar hyn o bryd, defnyddir system hunanreoleiddio ar gyfer gwastraff y Rhestr Werdd, sy'n golygu nad yw'n ofynnol i allforwyr a mewnforwyr dalu ffioedd i dalu cost ein gweithgareddau cydymffurfedd rheoleiddiol na chyflwyno ffurflenni Atodiad VII (gwastraff hysbysadwy yn unig). Nid oes gan CNC gynllun codi tâl ar waith ar gyfer gwastraff y Rhestr Werdd ar hyn o bryd. Bydd taliadau'n cael eu gweithredu unwaith y bydd y gofynion rheoliadol wedi'u gweithredu drwy ddeddfwriaeth.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a'r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer gwastraff y Rhestr Werdd?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 57% | Cytuno 43% |
|---|---|

**Amserlen ar gyfer cyflwyno taliadau**

Dywedoch chi:

- Gyda'r cyllid ychwanegol sy'n dod o'r cynnydd hwn, mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn croesawu'r cyfle i CNC reoleiddio allforion yn fwy rhagweithiol er mwyn atal a mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon.
- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyfathrebu'n eang yng Nghymru gan CNC i sicrhau bod y sector adnoddau a gwastraff yn ymwybodol o hyn ac yn gallu gwneud newidiadau i'w gweithdrefnau a'u harferion mewnol.

Ein hymateb:

Gan gydnabod adborth gan randdeiliaid y diwydiant a phartneriaid cyflawni yn nodi y byddai cyflwyno system tracio gwastraff ddigidol erbyn mis Ebrill 2025 yn cyflwyno heriau sylweddol, mae gweinidogion o Lywodraeth y DU, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, a Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na fydd y prosiect yn dod yn orfodol ym mis Ebrill 2025. Mae'r dyddiad gweithredu wedi'i ohirio tan fis Ebrill 2026. Disgwylir diweddariadau pellach ar linellau amser ym mis Mai 2025.

Gan y datblygwyd y bandiau codi tâl a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer gwastraff Erthygl 18 y Rhestr Werdd i weithio gyda'r system tracio gwastraff ddigidol, mae CNC yn bwriadu gohirio cyflwyno'r taliadau hyn. Byddwn yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r taliadau hyn unwaith y bydd gennym ddiweddariadau ynghylch cyflwyno'r system tracio gwastraff ddigidol.

**Canllawiau**

Dywedoch chi:

- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn awgrymu gwneud canllawiau clir sy'n benodol i CNC ar gael gan fod mewnforio ac allforio gwastraff yn faes cymhleth o reoleiddio a'r gyfraith.

Ein hymateb:

Bydd cyngor ac arweiniad ynghylch proses gwastraff y Rhestr Werdd yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi cyn cyflwyno'r taliadau hyn.

## Hysbysiad safle gwastraff peryglus

Hysbysiad safle gwastraff peryglus yw'r gofyniad o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 i unrhyw un sy'n cynhyrchu mwy na 500kg o wastraff peryglus mewn blwyddyn gofrestru ei fanylion ag CNC. Mae hyn yn rhoi manylion cynhyrchwyr yng Nghymru i swyddogion CNC, sy'n ein galluogi i dargedu ein hymdrechion cydymffurfio yn effeithiol.

Gan ein bod wedi nodi gwarged parhaus yn y maes hwn, rydym yn cynnig lleihau'r ffi gofrestru i £0 o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Bydd yn parhau'n ofynnol i gynhyrchwyr gofrestru gyda ni.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a'r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion codi tâl am hysbysiadau safle gwastraff peryglus?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anghytuno 14% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 28% | Cytuno 29% | Cytuno'n gryf 29% |

**Cadw'r tâl**

Dywedoch chi:

- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn awgrymu bod CNC yn cynnal tâl ar sail yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd costau gweinyddol uwch yn dilyn gweithredu'r system tracio gwastraff ddigidol.

Ein hymateb:

Rydym yn parhau i gymhwyso'r egwyddor y llygrwr sy'n talu gan fod dileu'r tâl cofrestru yn cael ei ariannu o warged yn y gyfundrefn gwastraff peryglus. Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn cyfarwyddo na ddylem wneud elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Yn ogystal, ni all CNC roi cymhorthdal ar draws cyfundrefnau, gan ddefnyddio cyllid o un gyfundrefn reoleiddio i ariannu un arall. O'r

herwydd, ni fyddem yn gallu defnyddio'r gwarged hwn i ariannu cost unrhyw gostau gweinyddol uwch a allai fod yn gysylltiedig â'r system tracio gwastraff ddigidol.

**Sylwadau cyffredinol**

Dywedoch chi:

- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol buddsoddi mewn dilysu data rhwng cofrestriadau gwastraff peryglus a'r system tracio gwastraff ddigidol yn hytrach na cholli'r ffrwd incwm.
- Eich bod yn falch bod y tâl hwn yn cael ei ddileu.
- Dyma lle mae angen i chi fod yn wyliadwrus iawn o ran cydymffurfio.

Ein hymateb:

Rydym yn ystyried eich pwyntiau o ran dilysu data a bod yn wyliadwrus iawn.

## Cydsyniadau a.166 Deddf y Diwydiant Dŵr – adnewyddu falfiau sgwrio bob pum mlynedd

Ym mis Gorffennaf 2023, fel rhan o'n Hadolygiad Strategol o Daliadau, gwnaethom gyflwyno cydsyniadau y gellir codi tâl amdanynt o dan a166 (a) a (b) Deddf y Diwydiant Dŵr. Mae'r rhain yn cwmpasu gweithgareddau gan gwmnïau dŵr sy'n golygu bod yn rhaid gollwng dŵr wedi'i drin, neu ddŵr heb ei drin, i gwrs dŵr o bibell sy'n fwy na 229mm mewn diamedr. Ariannwyd y cydsyniadau hyn gan gymorth grant yn flaenorol.


Ar gyfer 2025/26, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno tâl am adnewyddiadau pum mlynedd ar gyfer rhyddhau falfiau sgwrio bob chwe mis, sy'n berthnasol i gwmnïau dŵr yn unig. Efallai y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd.

Codir tâl o 10% o'r gyfradd am un achos o ollwng dŵr am bob achos ychwanegol o ollwng dŵr ar safleoedd eraill a restrir ar yr un cydsyniad.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a'r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer adnewyddiadau rhyddhau falfiau sgwrio a166 (a) a (b)?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:




Dywedoch chi:

- Dim ymateb.

## Adnoddau dŵr – adnewyddu o dan yr un telerau / telerau gwahanol

Rydym wedi mireinio’r modd yr ydym yn diffinio adnewyddiadau syml a chymhleth am nad ydym yn adennill digon o gostau ar adnewyddiadau o dan yr un telerau.

Dim ond i’r meysydd canlynol y cynigiwyd gymhwyso’r ffi amrywio syml is:

- adnewyddu o dan yr un telerau (lle nad oes unrhyw bryderon amgylcheddol na phryderon eraill wedi cael eu codi yn eich llythyr atgoffa i adnewyddu)
- adnewyddiadau o dan delerau gwahanol (lle mai lleihad yw’r newid, sy’n golygu lleihad mewn symiau neu ddileu pwynt/diben a symiau cysylltiedig)


Ar gyfer adnewyddiadau nad ydynt yn bodloni’r meini prawf uchod, rydym yn cynnig y dylid codi tâl am y rhain ar yr un gyfradd ag amrywiad technegol ac y bydd hyn yn cynnwys:

- cynyddu’r symiau rydych yn eu tynnu
- newid lleoliad y gwaith tynnu
- newid diben
- newidiadau i luniadau a mapiau sydd wedi’u hatodi i’r drwydded

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a’r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi’n cytuno â’n diffiniadau arfaethedig a’r taliadau cysylltiedig ar gyfer adnewyddu o dan yr un telerau a thelerau gwahanol?

O’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:




<u>Dywedoch chi:</u>

**Newidiadau i leoliad y tynnu dŵr**

- Bydd chwareli yn aml yn newid lleoliad y tynnu dŵr wrth i waith ar y safle fynd rhagddo. Mae’n annhebygol y bydd newid lleoliad y tynnu dŵr yn ddigon sylweddol i wneud newid i’r amgylchedd lleol a/neu’r adnodd dŵr y tynnir ohono neu y gollyngir iddo. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylid ystyried yr adnewyddiad fel yr un lleoliad, ac ni ddylid codi ffi ychwanegol.
- Byddem hefyd yn ystyried na ddylid codi’r ffi lawn am fân amrywiadau eraill i’r drwydded bresennol. Fodd bynnag, heb dystiolaeth o ddadansoddiad CNC o’r holl gostau wrth brosesu adnewyddiadau, mae’n anodd gwneud sylw pellach ar hyn.
- Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain o’r farn nad yw’r ymgynghoriad hwn yn ystyried cylch gwaith ehangach CNC, yn enwedig yng nghyd-destun dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer sero net, targedau ynni adnewyddadwy a pherchnogaeth ynni lleol, a pha mor anodd yw cyflawni’r nodau hyn.

- Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn credu nad yw CNC, fel corff statudol, yn cynnig darparu gwasanaethau mewn modd costeffeithiol a chymesur.
- Mae'n debygol y bydd ystod eang o ganlyniadau anfwriadol yn sgil y cynigion presennol nad ydynt wedi bod yn destun dadansoddiad effaith priodol (fel sy'n ofynnol gan ganllawiau'r llywodraeth).
- Bydd Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn croesawu'r cyfle i weithio ar ffordd ymlaen sy'n cyfuno gwybodaeth a phrofiad y diwydiant gydag adnoddau CNC i wneud y mwyaf o gyfleoedd ynni dŵr yn y dyfodol a thrwy hynny helpu i gyflawni uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru.

**Dosbarthiadau trwyddedau**

- Gall anawsterau godi wrth ddosbarthu'r math o gais, a dylid ystyried proses i adolygu neu herio'r dosbarthiad. Gallai'r enghreifftiau a roddir ar gyfer amrywiad technegol arwain at fân newidiadau sy'n gofyn am ffi anghymesur – er enghraifft, newid pwrpas defnydd dŵr.
- Heb dystiolaeth na gwybodaeth bellach am yr adnewyddiadau a broseswyd gan CNC a faint ohonynt nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adnewyddu o dan yr un telerau, mae'n anodd ymateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Ein hymateb:</u>

- Mae ein cynnig yn egluro'r ffordd yr ydym yn diffinio adnewyddiadau i adlewyrchu'n well yr asesiadau technegol a'r ymgynghori sydd eu hangen i sicrhau adennill costau llawn. Mae hyn yn helpu i sicrhau na wneir ceisiadau am amrywiadau cymhleth fel ceisiadau am adnewyddiadau syml (yr un telerau neu delerau syml gwahanol).
    - Nid ydym yn ystyried bod unrhyw amrywiad technegol yn fach o ran ein categorïau trwydded.
    - Lle bo adnewyddiad ar yr un telerau ac nid ydym wedi nodi unrhyw risg amgylcheddol neu ddiffyg cydymffurfio y mae angen ei amrywio, bydd y tâl is yn parhau i fod yn berthnasol (yn amodol ar y cynnydd chwyddiant arfaethedig).
    - Yn yr un modd, pan fo'r adnewyddiad ar delerau gwahanol ond bod ganddo lai o risg amgylcheddol sy'n gofyn am lai o asesiad technegol, byddwn yn defnyddio'r tâl is o dan y categori adnewyddu presennol ar gyfer telerau gwahanol.
    - Ar gyfer adnewyddiadau mwy cymhleth sydd hefyd angen amrywiad technegol, megis newid lleoliad tynnu dŵr neu newid defnydd, bydd y band tâl uwch nawr yn berthnasol i sicrhau ein bod yn adennill ein costau yn llawn.
    - Mae amrywiadau gweinyddol yn parhau i fod yn rhad ac am ddim.
- Lle mae angen adnewyddiadau, mae'r mwyafrif yn debygol o weddu i gategorïau adnewyddu syml o dan yr un telerau neu delerau gwahanol. Mewn sefyllfaoedd lle mae gweithredwr yn dymuno gwneud amrywiad naill ai ar adeg adnewyddu neu fel arall, bydd ein gofyniad amrywiad a'n taliadau presennol yn berthnasol. Er enghraifft, pan fo trwydded yn cynnwys ardal, ni fydd angen i weithredwyr amrywio yn ystod y cyfnod adnewyddu na gwneud cais i amrywio eu trwydded os ydynt yn symud lleoliad y gwaith tynnu o fewn yr ardal honno. Os yw'r drwydded yn bwynt tynnu dŵr sefydlog, a bod y

gweithredwr yn dymuno ei symud, byddai angen amrywiad technegol. Gall hyn ddigwydd neu beidio digwydd ar adeg adnewyddu (telerau gwahanol cymhleth) a bydd tâl yn cael ei godi i adennill costau'r asesiad technegol ac ymgynghori. Yn ogystal â'r eglurhad hwn, rydym yn cynnig cynnydd chwyddiannol i daliadau amrywiadau (+3%).

Er nad yw'n bosibl nodi pa weithredwyr chwareli y gallai fod angen iddynt newid y pwynt tynnu dŵr neu pa rai na fydd angen iddynt wneud hynny, mae gan dros hanner y chwareli drwydded ar sail ardal eisoes ac mae gan lawer drwyddedau sy'n seiliedig ar bwyntiau lluosog neu bwyntiau llai hyblyg, megis tynnu dŵr daear o dyllau turio.

- Mae CNC yn llwyr gefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer targedau ynni adnewyddadwy sero net, ond mae angen eu cyflwyno mewn ffordd nad yw'n cael canlyniadau negyddol anfwriadol ar rannau eraill o'r amgylchedd. Er bod gan lawer o'r gweithgarwch rydym yn ei reoleiddio elfennau o fudd cymdeithasol, mae angen i ni reoleiddio'r gweithgareddau hyn i gydbwyso'n ofalus unrhyw risg o niwed sy'n gysylltiedig â nhw.

## Trwyddedu rhywogaethau

### Cynnig

Gwnaethom gyflwyno taliadau newydd drwy ein Hadolygiad Strategol o Daliadau yn 2023 a gwnaethom ymrwymo i hepgor taliadau mewn achosion penodol er mwyn cefnogi buddiannau ehangach. Ers i'r taliadau gael eu cyflwyno, rydym wedi nodi cymhlethdod mewn perthynas â rhai mathau o drwyddedau a'r angen am fwy o eglurder ynghylch hepgoriadau a ble maent yn gymwys.

Rydym yn cynnig taliadau newydd ac yn cynnig y dylid mireinio'r hepgoriadau cysylltiedig ar gyfer 2025/26, sy'n golygu y codir tâl bellach am y gweithgareddau canlynol.

### Datblygiadau deiliaid tai

Cynigiwyd ffi sefydlog newydd ar gyfer ceisiadau am drwydded rhywogaethau sy'n gysylltiedig ag estyniadau cartref, addasiadau toeon, ail-doi, a datblygu a ganiateir o fewn cwrtil annedd.

Codir tâl sefydlog ar gyfer gwelliannau, tra bydd gwelliannau mwy cymhleth yn destun cyfradd fesul awr o £125 yr awr.

O dan Hepgoriad D ar hyn o bryd, roedd rhai datblygiadau tai yn cael cymhorthdal drwy gymorth grant. Rydym yn cynnig y dylid diwygio Hepgoriad D, sy'n golygu y byddwn yn codi tâl am drwyddedau sy'n cynnwys newidiadau adeileddol neu darfu sylweddol megis ail-doi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn codi tâl am sefyllfaoedd symlach fel gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar annedd ddomestig.

### Gweithgareddau eraill y mae angen trwydded ar eu cyfer

Cynigiwyd codi tâl o £125 yr awr am geisiadau cymhleth lle nad oes angen caniatâd cynllunio neu lle mae'r gweithgaredd wedi'i gwmpasu gan ddatblygu a ganiateir fel clirio tir, ymchwiliadau tir, neu osod seilwaith trydan neu delathrebu.

Codir tâl am newidiadau ar gyfradd sefydlog, tra bydd gwelliannau mwy cymhleth yn destun cyfradd fesul awr o £125 yr awr.

**Trwyddedau rheoli adar**

Cynigiwyd cyflwyno tâl newydd am drwyddedau rheoli adar er mwyn:

- cynnal iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd mewn adeiladau masnachol, safleoedd busnes, safleoedd diwydiannol, neu grwpiau o fwy nag un annedd
- atal clefydau rhag lledaenu mewn adeiladau masnachol, safleoedd busnes, safleoedd diwydiannol, neu grwpiau o fwy nag un annedd

Bydd trwyddedau rheoli adar sydd eu hangen at y dibenion hyn mewn ysbytai, cyfleusterau addysgol ac anheddau sengl yn dal i gael eu hesemptio rhag taliadau o dan y cynnig hwn.

Codir tâl sefydlog am newidiadau gweinyddol i'r trwyddedau uchod megis newid y trwyddedai, yr ecolegydd neu'r asiantiaid achrededig, neu newid manylion personol. Ystyrir bod pob diwygiad arall yn ddiwygiad cymhleth a chodir tâl o £125 yr awr.

**Gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir**

Ar gyfer gweithgareddau iechyd a diogelwch a gynllunnir, cynigiwyd cyflwyno tâl o £125 yr awr ar gyfer:

- ceisiadau lle nad oes angen cynllunio neu lle mae'r gweithgaredd wedi'i gwmpasu gan ddatblygu a ganiateir, e.e. clirio tir, ymchwiliadau tir, gosod seilwaith trydan neu telathrebu
- gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir neu waith iechyd a diogelwch rheolaidd fel cynnal a chadw seilwaith dŵr, trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu

Bydd diwygiadau'n denu tâl sefydlog, gan gynnwys newidiadau gweinyddol fel newid y trwyddedai, yr ecolegydd neu'r asiantau achrededig, neu wneud newidiadau i fanylion personol.

Ystyrir bod pob diwygiad arall yn ddiwygiad cymhleth ac, felly, codir tâl o £125 yr awr.

**Hepgor taliadau am drwyddedau rhywogaethau**

Roedd y cynllun codi tâl am drwyddedu rhywogaethau a gyflwynwyd gennym ym mis Gorffennaf 2023 yn cynnwys pedwar 'hepgoriad tâl' a oedd yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddai ein hymdrechion yn parhau i gael ei ariannu'n gyhoeddus drwy 'gymorth grant' i gefnogi byd natur.

Yn ystod ein hadolygiad o daliadau eleni, gwnaethom ystyried sut roedd yr hepgoriadau wedi cael eu defnyddio a gwnaethom nodi meysydd o ddiffyg eglurder, sy'n golygu bod ein staff yn treulio llawer o amser yn prosesu ceisiadau cymhleth yn aml ar gyfer prosiectau mawr heb unrhyw dâl, neu'n ymgysylltu ag ymgeiswyr i benderfynu a oes hepgoriad yn gymwys ai peidio.

Rydym yn bwriadu addasu a mireinio'r hepgoriadau a gyflwynwyd yn 2023 er mwyn sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei dargedu at yr achosion penodol canlynol yn unig:

- **Hepgoriad A:** Cadwraeth, gwyddonol, ymchwil neu addysg – Ni fyddwn yn codi tâl am gais am drwydded rhywogaethau os ydych yn gwneud gwaith

arolygu nid-er-elw neu am geisiadau gan asiantaethau gorfodi fel yr heddlu, y mae angen trwydded arnynt i ymchwilio i drosedd a amheuir. Ni fydd unrhyw ffi yn gymwys os mai'r prif amcan yn ein barn ni yw:

  - amddiffyn y rhywogaeth honno a warchodir neu ei chynefinoedd
  - datblygu dealltwriaeth wyddonol o rywogaethau a warchodir neu eu cynefinoedd
  - addysg sy'n ymwneud â'r rhywogaeth honno a warchodir neu ei chynefinoedd
  - cynnal neu wella bioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau
  - cynnal a chadw neu warchod henebion cofrestredigCynigiwyd tynnu'r hepgoriad ar gyfer taliadau sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol.

- **Hepgoriad B:** Diogelwch y cyhoedd, iechyd y cyhoedd, neu atal difrod difrifol i eiddo – Rydym wedi adolygu a mireinio'r hepgoriad hwn fel ei fod yn adlewyrchu natur y cais, ei raddfa, a'r meini prawf. Byddwn yn hepgor taliadau lle mai'r prif amcan, yn ein barn ni, yw:
  - cynnal diogelwch y cyhoedd rhag anaf neu farwolaeth uniongyrchol
  - gwarchod iechyd y cyhoedd rhag bygythiad uniongyrchol
  - atal clefydau rhag lledaenu
  - gwarchod adar gwyllt
  - atal difrod difrifol i dda byw, porthiant ar gyfer da byw, cnydau, llysiau, ffrwythau, pren sy'n tyfu, pysgodfeydd, neu ddŵr mewndirol
  - gwarchod diogelwch aer
  - gwarchod fflora a ffawna
- **Hepgoriad C:** Trwyddedau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol – Heb ei newid.
- **Hepgoriad D:** Gwaith cynnal a chadw gan ddeiliaid tai (a elwir ar hyn o bryd yn ddatblygiadau cartref) – Cynigiwyd parhau i hepgor taliadau am drwyddedau rhywogaethau sydd eu hangen er mwyn gallu cynnal a chadw eiddo domestig a ddefnyddir fel prif breswylfan (dosbarth defnydd C3) lle nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith (gellir cymhwyso'r hepgoriad o hyd os oes angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith). Nid yw'r hepgoriad yn gymwys i waith a wneir o dan hawliau datblygu a ganiateir na gwaith ail-doi.
- **Hepgoriad E:** Datblygiadau newydd i ddarparu cyfleusterau a mynediad i bobl anabl – Cynigiwyd cyflwyno hepgoriad newydd yn benodol ar gyfer gwaith i ddarparu mynediad i bobl anabl a oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol yn Hepgoriad D.


Bydd hepgoriadau ond yn gymwys mewn achosion sy'n bodloni prif amcan yr hepgoriad yn ein barn ni.

Mae ein [hepgoriadau trwyddedu rhywogaethau presennol ar gael ar ein gwefan](hepgoriadau trwyddedu rhywogaethau presennol ar gael ar ein gwefan).

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

Ar ôl ystyried ein cynigion a'r wybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion codi tâl am drwyddedu rhywogaethau?

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:




**Ceisiadau cymhleth**

Dywedoch chi:

- Rhowch eglurder ynghylch sut y bydd CNC yn ymdrin â cheisiadau cymhleth (e.e. prosiectau seilwaith mawr) sy'n cynnwys elfennau sy'n bodloni amcanion diogelwch y cyhoedd a chadwraeth. Ni ddylai prosiectau sy'n bodloni'r amcanion hyn gael eu heithrio'n anfwriadol rhag hepgoriadau oherwydd cymhlethdod.

Ein hymateb:

Byddwn yn archwilio ceisiadau bob amser drwy ystyried y prif ddiben. Byddwn yn gweithio gydag ymgeiswyr i ddeall y prif ddiben ac yn cymhwyso hepgoriadau mor deg â phosibl.

Mae hepgoriadau yn berthnasol lle mai cadwraeth yw pwrpas y prosiect. Mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr neu geisiadau cymhleth eraill, mae amcanion cadwraeth a mesurau lliniaru yn aml yn gysylltiedig â'r prosiect ehangach ac maent yn ofynnol er mwyn lliniaru'r effeithiau. Mae gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir yn effeithio ar y safle ac felly mae angen gweithredu mesurau cadwraeth.

Byddem yn croesawu gweithio gydag ymgymerwyr statudol i weld a allem symud tuag at drwyddedau rhaglen waith a fyddai'n cwmpasu rhwydweithiau mwy yn hytrach na safleoedd unigol.

**Costau haenog a hepgoriadau pellach**

Dywedoch chi:

- Rydym yn eiriol dros gostau haenog, gyda lefelau gwahanol o daliadau yn dibynnu ar gymhlethdod a budd y cyhoedd ymhob achos. Yn benodol, dylai gwasanaethau rheoli plâu sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd fod â chostau llai neu fod yn esempt rhag ffioedd, gan adlewyrchu pwysigrwydd cymdeithasol y gwasanaethau brys hyn.
- Mae angen mwy o eglurder ynghylch y gwahanol drwyddedu rhywogaethau a fydd yn digwydd, e.e. sut y bwriedir categoreiddio'r rhywogaethau ar gyfer pob cyfundrefn ffioedd.

Ein hymateb:

Mae Adran 6.3.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn pennu na ddylid codi symiau gwahanol ar wahanol grwpiau o gwsmeriaid am wasanaeth sy'n costio'r un faint – er enghraifft, codi mwy ar gwmnïau nag unigolion. O ganlyniad, ni allwn ystyried gosod taliadau is ar gyfer unrhyw grŵp.

Mae taliadau cais CNC yn seiliedig ar yr amser y mae staff yn ei gymryd i benderfynu ar gais. Rydym wedi costio pob math o drwydded yn seiliedig ar y cymhlethdod. Mewn sefyllfaoedd lle mae gan rai hawlenni neu drwyddedau wahaniaethau sylweddol o ran yr ymdrech sydd ei hangen ar eu cyfer, rydym wedi cyflwyno bandiau. Rydym yn cydymffurfio ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac yn adennill cost lawn darparu ein gwasanaethau oddi wrth y rhai sy’n elwa arnynt.

Rydym wedi cyflwyno cyfres o hepgoriadau ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai fod anfantais i’r amgylchedd wrth godi tâl. Rydym wedi nodi’r prif amcanion y credwn ei bod yn briodol eu hepgor, sy’n cynnwys rhai agweddau ar iechyd y cyhoedd. Mae’r gostyngiad neu’r esemptiad y gofynnir amdano at ddibenion ariannol ac nid er budd yr amgylchedd.

Os ydy CNC yn derbyn ceisiadau ailadroddus yn rheolaidd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer rheoli plâu / rheoli adar mewn safleoedd masnachol, mewn rhai achosion gellid dileu’r angen am drwydded drwy gymryd camau rheoli tymor hwy.

Caiff trwyddedau eu categoreiddio yn ôl math o ddatblygiad, a ffactorau risg megis maint ac effaith y gweithgaredd. Nid ydynt yn cael eu categoreiddio yn ôl rhywogaeth. Byddai strwythuro gofynion trwyddedau yn ôl rhywogaeth yn cynyddu’r cymhlethdod ac felly’n cynyddu’r gost. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ehangu cymhlethdod y drefn codi tâl, sydd ar hyn o bryd yn seiliedig ar raddfa ac effaith gweithgaredd.

### Mwy o reoleiddio

<u>Dywedoch chi:</u>

- A ellid trwyddedu mwy?

<u>Ein hymateb:</u>

Ar hyn o bryd, rydym yn dod i ddiwedd ein hadolygiad presennol o daliadau trwyddedau rhywogaethau. Nid ydym yn rhagweld trwyddedu gweithgareddau pellach. Fodd bynnag, rydym yn ystyried cynnwys trwyddedau dadleoli rhywogaethau o ganlyniad i ddatblygiad, a gyhoeddir ar hyn o bryd o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, o dan ein categori codi tâl am ddatblygiadau. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu taliadau yn unol â chwyddiant.

### Cefnogaeth i’n cynigion

<u>Dywedoch chi:</u>

- Rydym yn ymwybodol, y llynedd, nad oedd rhai gweithgareddau cadwraeth lle’r oedd angen trwyddedau rhywogaethau gan ein haelodau wedi’u cynnwys o dan yr hepgoriad cadwraeth lle mae prosiectau hefyd yn dod ag elw o rywfaint o weithgarwch y prosiect, er mai cadwraeth oedd prif ddiben y prosiect. Rydym wedi nodi y bu rhai gwelliannau yn y maes hwn lle mae’r hepgoriad bellach wedi’i gymhwyso neu ffioedd wedi’u lleihau i gefnogi cynlluniau gwella amgylcheddol, felly rydym yn croesawu hyn.

<u>Ein hymateb:</u>

Byddwn bob amser yn gweithio i ddeall prif ddiben cais ac i gymhwyso hepgoriadau mor deg â phosibl.

## Cynnydd chwyddiannol ac adennill costau arfaethedig i gyfundrefnau mewn diffyg

Yn ogystal â'r cynigion penodol uchod, cynigiom y dull canlynol i fynd i'r afael â chostau uwch ar gyfer y cyfundrefnau rheoleiddio hynny sydd mewn diffyg ar hyn o bryd, neu'n rhagweld diffyg wrth symud ymlaen:

- Cynnydd o +8.5% i daliadau parhau (cydymffurfedd blynyddol) mewn meysydd o ddiffyg sylweddol, sy'n ein symud tuag at sefyllfa adennill costau. Mae hyn yn gymwys i'r canlynol:
    - Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Gwastraff sydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Cynnydd penodol o +6% i gynlluniau tâl parhau (cydymffurfedd blynyddol) ar gyfer cynlluniau codi tâl a fyddai fel arall angen cynnydd sylweddol i gyrraedd sefyllfa adennill costau erbyn 2027/28. Mae'r cyfundrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n fanwl yn y tymor hwy i roi sicrwydd inni y caiff costau eu hadennill yn llawn.
    - Tâl uned safonol adnoddau dŵr
    - Gosodiadau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
    - Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Cyfleusterau ailgylchu deunyddiau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff sy'n destun y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Cludo gwastraff yn rhyngwladol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Trwyddedau asesu perygl llifogydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
    - Diogelwch cronfeydd dŵr
- Cynnydd o +3% i feysydd trwyddedu er mwyn ymdopi â phwysau chwyddiannol:
    - Adnoddau dŵr – trwyddedau tynnu/cronni dŵr
    - Trwyddedau gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
    - Trwyddedau gwastraff safle o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol


- Trwyddedau ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Trwyddedu rhywogaethau

**Cwestiwn yr ymgynghoriad:**

I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’n cynnydd chwyddiannol ac adennill costau arfaethedig i gyfundrefnau diffygiol?

O’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




## Sylwadau cyffredinol

### Lefel y rheoleiddio a lefelau gwasanaeth

<u>Dywedoch chi:</u>

- Er ein bod yn cefnogi’r angen am y codiadau hyn i alluogi pob cyfundrefn i gyrraedd pwynt adennill costau, rydym yn pryderu bod hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth bod lefel bresennol y gweithgarwch rheoleiddio yn ddigonol. Yn ôl adroddiad rheoleiddio diweddaraf CNC (2023), mae’n amlwg bod lefelau sylweddol o ddiffyg cydymffurfio mewn nifer o gyfundrefnau, ac mai dim ond cyfran fach o drwyddedau sy’n cael eu gwirio am gydymffurfedd. Er enghraifft, allan o dros 2,000 o drwyddedau adnoddau dŵr, dim ond 99 a aseswyd ac roedd 56% ohonynt yn peidio â chydymffurfio; ar gyfer gollyngiadau dŵr, aseswyd 649 ac roedd 52% ohonynt yn peidio â chydymffurfio. Mae’r data hyn yn awgrymu bod angen i CNC gynyddu ei weithgarwch rheoleiddio yn y sectorau hyn. Ategir hyn gan dystiolaeth gan Brif Swyddog Gweithredol CNC, Clare Pillman. Yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Tachwedd 2023 (C163), dywedodd mai’r rheswm na ellid monitro asedau Dŵr Cymru yn fanylach oedd diffyg arian. Mae hyn yn edrych fel arwydd clir,

ar gyfer trwyddedau gollwng dŵr o leiaf, bod angen cynnydd mewn termau real i dalu am staff ac offer ychwanegol i fonitro asedau Dŵr Cymru yn ddigonol. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru felly yn synnu nad yw CNC wedi dilyn yr arweiniad a ddangoswyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, sydd wedi cynyddu ei thaliadau parhau ar gyfer trwyddedau gollwng carthffosiaeth yn sylweddol, gyda chynnydd o dros 100% ar gyfer sawl categori trwydded, er ein bod yn nodi yr edrychir nesaf ar daliadau parhau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi y bydd y cynnydd mewn incwm o ganlyniad i'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn eu galluogi i godi nifer yr archwiliadau safle gyda chynnydd ddeg gwaith yn fwy erbyn mis Ebrill 2026, felly rydym yn gobeithio y gellir cymryd agwedd debyg pan fydd taliadau parhau wedi'u hadolygu.

- Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn siomedig nad oes unrhyw ymgais yn y cynigion codi tâl hyn i gynyddu, mewn termau real, ffioedd er mwyn galluogi lefel effeithiol o weithgarwch rheoleiddio yn y cyfundrefnau hynny sydd â'r achosion mwyaf o ddiffyg cydymffurfio a niwed amgylcheddol. Er enghraifft, mae CNC yn defnyddio cymorth grant i adennill costau sy'n gysylltiedig â gorfodi amaethyddol, tra byddai system orfodi a ddatblygwyd yn gyson ar draws pob math o drwyddedu yn arwain at adennill costau llawn trwyddedau amaethyddol yn ogystal â mathau eraill.
- Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn credu bod angen i CNC ddarparu rhagor o wybodaeth i gyd-fynd ag ymgynghoriadau ar gynigion taliadau er mwyn gallu asesu ei gynigion yn effeithiol. Yn benodol, dylai nodi'r lefelau presennol o ymdrech reoleiddiol a graddau'r diffyg cydymffurfio ym mhob cyfundrefn. Byddai hyn yn galluogi asesiad o effeithiolrwydd pob cyfundrefn o ran diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol, yn hytrach na'i iechyd ariannol yn unig.
- Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn siomedig mai'r prif faen prawf yr ymddengys fod CNC yn ei ddefnyddio ar gyfer pennu taliadau rheoleiddiol yw'r angen i fantoli'r gyllideb. Credwn mai'r man cychwyn ar gyfer pennu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyfundrefn reoleiddio ddylai fod "Pa lefel o ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen i sicrhau lefel uchel o gydymffurfedd a'r risgiau lleiaf posibl i'r amgylchedd ac iechyd dynol?". Dim ond pan fydd y lefel hon o ymdrech reoleiddiol wedi'i hasesu y gellir pennu'r pwynt adennill costau ariannol. Heb wybodaeth am faint o ymdrech reoleiddiol a graddau diffyg cydymffurfio, mae'n anodd dweud a yw'r codiadau arfaethedig yn ddigonol, er, fel y nodwyd uchod, mae datganiad gan Brif Swyddog Gweithredol CNC yn awgrymu nad ydynt.
- Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn ymwybodol y bu cynnydd sylweddol mewn costau yn ddiweddar ond bod safon y gwasanaeth yn is. Dylid gwneud unrhyw gynnydd mewn costau gyda golwg ar wella effeithlonrwydd a safonau gwasanaeth. Mae CNC wedi bod yn rhewi recriwtio, a ddaeth i rym yn fuan ar ôl y cynnydd mewn prisiau trwyddedu yn 2023/24. Mae hyn wedi golygu bod yr oedi wrth wneud cais am drwydded wedi cynyddu i tua naw mis yng nghanol 2024. Nid yw hwn yn wasanaeth cynaliadwy ac mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn ymwybodol bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar fuddsoddiad yn economi Cymru, gyda rhai gweithredwyr a'u cefnogwyr ariannol yn cael eu hatal rhag buddsoddi yng Nghymru oherwydd yr amser a gymerir i dderbyn awdurdodiadau.

- Hoffai Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru weld mwy o gysylltedd rhwng proses drwyddedu effeithlon sy'n darparu trwyddedau o fewn terfynau amser statudol a'r buddsoddiad yn y tîm trwyddedu o ganlyniad i ffioedd ymgeisio uwch.
- Mae angen sicrhau bod y taliadau'n cynnwys costau ym mhob achos.

Ein hymateb:

Mae'r rhan fwyaf o'r taliadau yr ymgynghorwyd arnynt eleni wedi bod yn rhai chwyddiannol yn unig, gyda'r bwriad o sefydlogi ein hincwm i ddiwallu anghenion adennill costau neu leihau diffygion penodol. Mae angen inni sicrhau bod ein gweithrediadau yn gynaliadwy yn y tymor byr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau ynghylch galluogi lefel effeithiol o weithgarwch rheoleiddio yn y cyfundrefnau hynny sydd â'r achosion mwyaf o ddiffyg cydymffurfio a niwed amgylcheddol, rydym yn y camau cynnar o roi rhaglen waith strategol hirdymor ar waith i adolygu ein taliadau parhau. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych yn fanwl ar sawl cyfundrefn, gan gynnwys ansawdd dŵr, a bydd yn ymgorffori'r safonau gwasanaeth yr ydym yn anelu atynt, a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni, yn ogystal â chwilio am welliannau i brosesau neu effeithlonrwydd i gadw costau sylfaenol mor isel â phosibl.

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd ynghylch lefelau gwasanaeth a rheoleiddio.

Mae cael safonau gwasanaeth clir a mesur perfformiad dilynol yn erbyn y safonau hyn yn ein helpu i reoli adnoddau a nodi'r angen i addasu a newid ein dulliau adennill costau. Mae angen i'r safonau gwasanaeth yr ydym yn anelu atynt hefyd fodloni polisi a deddfwriaeth sy'n datblygu (e.e. y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)) a sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hamcanion corfforaethol.

Mae ein cynllun gwasanaeth rheoleiddio yn cael ei lunio gan lefel y gwasanaeth yr ydym yn bwriadu ei darparu a'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Rydym yn cydnabod nad yw ein hadnoddau, systemau a galluoedd presennol yn y sefyllfa yr hoffem iddynt fod ar hyn o bryd i gyflawni yn erbyn y safonau hyn. Bydd yr adolygiad manwl o daliadau parhau, ynghyd â gwelliannau i brosesau a systemau, yn helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y safonau rheoleiddio angenrheidiol a'r adnoddau sydd gennym i'w cyrraedd.

Rydym yn cydnabod rhwystredigaeth lefelau gwasanaeth hwy na'r disgwyl ar gyfer pennu trwyddedau. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y cyfnod rhewi recriwtio, byddwn yn gallu recriwtio ein timau trwyddedu a chydymffurfio i gyflenwad llawn, gan wella'r ciwiau presennol y mae cwsmeriaid yn eu profi a'n gweithgareddau rheoleiddio ehangach.

Ar draws y broses reoleiddio, byddwn yn parhau i olrhain darpariaeth gwasanaethau, nodi rhwystrau, gweithio ar greu newidiadau i wella prosesau, llunio modelau adennill costau, a chyflwyno hyfforddiant a chanllawiau i'n symud yn agosach at y safon gyflawni a ddymunir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chyrff masnach a grwpiau eraill i wella ansawdd y ceisiadau a gawn gan fod hyn hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at gyflymder penderfynu ar drwyddedau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder, rydym yn cyhoeddi adroddiad rheoleiddio blynyddol ar wahân sy'n cynnig trosolwg cynhwysfawr o'n gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi. Mae ein hadroddiad yn 2023 yn crynhoi ein hymateb i ddigwyddiadau, ein gwaith cydymffurfio a thrwyddedu, ein camau mewn ymateb i drosedd, a'n camau gorfodi a chosbi, gan adlewyrchu ein dyletswyddau rheoleiddio statudol. Gellir dod o hyd i'r adroddiad manwl yma.

### Rheoleiddio ar sail risg

Dywedoch chi:

- Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn credu y dylai CNC fod yn fwy rhagweithiol wrth fabwysiadu trefn reoleiddio sy'n seiliedig ar risg, lle mae ymdrech reoleiddiol yn canolbwyntio ar y safleoedd/trwyddedau sydd â'r perygl mwyaf o beidio â chydymffurfio. Dylai hyn wedyn gael ei adlewyrchu yn y taliadau am drwyddedau unigol. Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â hanes cydymffurfio gwael dalu mwy, fesul trwydded, na'r rhai sydd â hanes cydymffurfio da. Er enghraifft, dylai gwaith carthffosiaeth sydd â hanes gwael o gydymffurfio dalu mwy na safle tebyg gyda hanes da, er mwyn galluogi CNC i gynnal mwy o fonitro a gwiriadau cydymffurfio. Er bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio mewn rhai sectorau, mewn eraill, yn enwedig gollyngiadau dŵr a thynnu dŵr, nid dyma'r achos.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd. Mae ein safonau gwasanaeth yn seiliedig ar risg ac yn ein cyfeirio i dreulio mwy o amser ar safleoedd sydd â chofnodion cydymffurfio gwael. Mae ein hymagwedd yn unol ag Adran 3 o'r Cod Rheoleiddwyr.

Er mai ond newydd ddechrau ar ein hadolygiad o daliadau parhau yr ydym ni, rydym yn ystyried opsiynau megis cyflwyno fframwaith sgorio cydymffurfedd ar gyfer y sector dŵr sy'n debyg i'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y sectorau gwastraff a diwydiant.

### Gorwelion cynllunio

Dywedoch chi:

Mae'r ymgynghoriad yn arwydd o gynnydd mewn costau ar draws ystod o feysydd a fydd yn effeithio ar gwsmeriaid Dŵr Cymru. Yn y pen draw, ein cwsmeriaid sy'n talu am yr holl daliadau. O ganlyniad, byddwn yn wynebu costau nas cynlluniwyd yn y pen draw gan fod y taliadau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn dod yn rhy hwyr i unrhyw ystyriaeth ym mhroses adolygu prisiau PR24 ac felly mae'n rhaid eu cynnwys mewn meysydd eraill o'n rhaglen, gan roi ein gallu i gyflawni gwelliannau amgylcheddol eraill mewn perygl. Bydd y costau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn y gallwn ei gyflawni fel endid nid-er-elw ar ran ein cwsmeriaid. O ran yr egwyddor o

ddarparu gorwelion cynllunio tymor hwy, mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn taliadau parhau blynyddol ar gyfer 2025/26 yn mynd yn groes i'r egwyddor hon. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i daliadau parhau ansawdd dŵr godi uwchlaw chwyddiant ac unwaith eto mae'n ychwanegu cost nas rhagwelwyd i'n cyllideb ar gyfer 2025/26, gyda'r canlyniadau canlyniadol y mae hyn yn eu creu o ran cyflawni blaenoriaethau cwsmeriaid eraill, gan na fydd yn bosibl cyflawni arbedion cydadferol gyda rhybudd mor fyr. Byddai cyfradd lyfnhau dros nifer o flynyddoedd yn rhoi'r cyfle i ni ddatblygu a gweithredu mentrau arbed costau cydadferol, gan osgoi trosglwyddo'r gost hon i'n cwsmeriaid i bob pwrpas. Gellid cysylltu arbedion effeithlonrwydd o'r fath ag unrhyw gynllun gwella ar gyfer darparu gwasanaethau CNC, gan ein galluogi i gael mwy o sicrwydd ynghylch amseroedd pennu trwyddedau o fewn ein hamseroedd cyflawni ein hunain. Unwaith eto, wrth hyrwyddo tryloywder, byddem yn croesawu adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol CNC ar gyfer trwyddedu er mwyn gallu olrhain gwelliannau o'r fath. Gyda tharged effeithlonrwydd CNC yn cael ei ychwanegu, byddai hyn yn dangos a yw'r gwelliannau arfaethedig i reoleiddio a monitro'r sector dŵr yn cael eu cyflawni drwy reoleiddio call ac effeithlon.

Ein hymateb:

Mae'r codiadau uwch na chwyddiant a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn arwydd o'r cyfeiriad ar gyfer y taliadau parhau sy'n debygol o gael eu gweld gyda'r adolygiad o daliadau parhau a ddisgrifiwyd yn gynharach. Yn yr un modd, mae rheoleiddwyr eraill wedi sicrhau cynnydd mawr yn eu taliadau trwy eu hadolygiadau eu hunain a thrwy ailffocysu gweithgareddau rheoleiddio. Er ein bod yn cydnabod y gallai'r codiadau hyn fod yn anodd ymdopi â hwy yn y tymor byr, bydd yn golygu bod y codiadau sylweddol tebygol o'r adolygiadau o daliadau parhau yn llai difrifol yn y tymor canolig. Rydym yn cyhoeddi'r cynnydd sylweddol tebygol hwn yn y dyfodol i'r sectorau a byddwn yn parhau i wneud hynny drwy'r grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau. Yn achos y cynnydd arfaethedig mewn taliadau parhau blynyddol dŵr, amlygwyd ein bwriadau ym mis Awst 2024 trwy ein grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau cyn mynd ymlaen gyda'r ymgynghoriad ei hun.

Mae gennym ddiffygion cyfundrefnol perthnasol parhaus i'w rheoli ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr (oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau i Raglen Diogelwch Argaeau Dŵr Cymru), a dyna'r rheswm dros yr angen i gynyddu'r taliadau hyn fwy na 3% er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy yn y tymor byr.

Byddwn yn rhoi syniad o amserlenni ar gyfer adolygiadau manylach o daliadau parhau ac ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2025 a byddwn yn ymdrechu i hysbysu rhanddeiliaid perthnasol am ein cynlluniau cyn gynted â phosibl.

## Fforddiadwyedd

Dywedoch chi:

- Er ein bod yn cydnabod bod holl feysydd gwariant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth grant i CNC, o dan lefelau digynsail o straen, cred Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylid ystyried ffioedd a thaliadau arfaethedig yng nghyd-destun y dirwedd economaidd ehangach. Rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau roi ystyriaeth

ddyledus i fforddiadwyedd cynigion a'u heffaith ar hyfywedd busnes yn ogystal â'r canlyniadau anfwriadol a'r effeithiau ar agenda polisi ehangach Llywodraeth Cymru – er enghraifft, mewn perthynas â datgarboneiddio, lles anifeiliaid, a meithrin cydnerthedd economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

- Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn croesawu ymrwymiad CNC i gynnal cymaint â phosibl y taliadau parhau blynyddol presennol. Nodwn, fodd bynnag, fod CNC yn cynnig cynnydd ar draws nifer o gyfundrefnau ar gyfer ffermydd sydd â thrwyddedau presennol. Gofynnwn i CNC ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun y pwysau chwyddiant sylweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd a amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn. Nid ydym yn credu ei bod yn sefyllfa gynaliadwy i CNC barhau i godi ei ffioedd a'i daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn heb archwilio'n gyntaf lle y gellir gweithredu arbedion cost.
- A fydd cam asesu fel ein bod yn gwybod sut yr effeithir arnom ni?

<u>Ein hymateb:</u>

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol parhaus ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch.

Rhaid i CNC weithio yn unol ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na ddylem wneud elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym yn ceisio adennill ein costau yn unig, ac ni allwn roi cymhorthdal o ffrydiau cyllid eraill.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn adennill ein costau mewn sawl cyfundrefn reoleiddio, sy'n arwain at ddiffygion ariannol. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn gwasanaeth mewn rhai meysydd o'n gwaith. Er ein bod wedi newid rhai o'n prosesau i fod yn fwy effeithlon, nid yw hyn yn ddigon i gydbwyso costau llawn cyflawni.

Mae'r cynigion ar gyfer taliadau uwch na chwyddiant uchod a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chyfundrefnau sydd â diffyg yn unig. Nid ydym wedi cynnig y codiadau heb ystyriaeth lawn ac rydym yn chwilio'n gyson am ffyrdd o leihau ein costau.

Byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio, atal llygredd, a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae CNC yn adolygu ei orbenion yn rheolaidd ac yn gweithredu arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n ymarferol. Mae gennym nifer o raglenni ar y gweill i wireddu buddion o wella prosesau a systemau, a fydd yn cael eu hadlewyrchu mewn modelau codi tâl wrth inni symud ymlaen.

**Adolygiad o daliadau parhau**

<u>Dywedoch chi:</u>

- Rydym yn nodi eich bod am gynnal adolygiad o daliadau parhau sy'n edrych ar brosesau, datblygu dulliau gweithredu, casglu tystiolaeth, a llunio cynlluniau codi tâl. Byddem yn hapus i gefnogi unrhyw dystiolaeth yn y

meysydd yr ydych yn canolbwyntio arnynt sy’n ymwneud â’n gweithgareddau i helpu i sicrhau bod eich adolygiad yn drylwyr ac yn gadarn.

- Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn nodi bod CNC yn bwriadu adolygu taliadau parhau (taliadau cydymffurfio blynyddol) gan ganolbwyntio i ddechrau ar nifer o gyfundrefnau sy’n effeithio ar ffermwyr, gan gynnwys ansawdd dŵr, gosodiadau a gwastraff sy’n dod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac adnoddau dŵr. Byddai Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru unwaith eto yn ailadrodd ein galwadau am adolygiad annibynnol llawn o ffioedd a thaliadau CNC i nodi lle y gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost gyda’r bwriad o gadw costau’n hylaw. Am y rheswm hwn, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn galw am atal yr adolygiad strategol o daliadau parhau blynyddol hyd nes y bydd yr adolygiad wedi’i gwblhau.

Ein hymateb:

Mae CNC yn cynnal rhaglen waith i adolygu ein taliadau parhau. Fel gydag adolygiadau blaenorol, y diben yw deall y costau sylfaenol a chyflwyno rhestr newydd o daliadau teg a chymesur ar gyfer gweithgareddau y codir tâl amdanynt yn seiliedig ar fodel cadarn ar gyfer amcangyfrif eu cost. Fel y nodwyd eisoes, mae chwilio am arbedion effeithlonrwydd, arbedion cost a gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn gweithio yn rhan sylfaenol o’r broses hon. Lle byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gyflawni arbedion posibl o ran prosesau neu effeithlonrwydd, byddai hwn yn bwydo i mewn i newidiadau TG a systemau yn y dyfodol.

Rydym wedi rhannu ein methodoleg sawl gwaith. Rydym wedi bod yn dryloyw o ran sut rydym wedi cynnal adolygiadau blaenorol ac o ran sut rydym wedi cyfrifo ein taliadau. Nid ydym yn credu bod manteision mewn adolygiadau pellach o’r broses.

Dim ond ers nifer o flynyddoedd y mae llawer o daliadau parhau CNC wedi bod yn destun codiadau chwyddiant. Credwn ei bod yn deg y dylai’r rhai sy’n defnyddio ein gwasanaethau dalu amdanynt. Bydd adolygiad o daliadau parhau yn sicrhau tegwch a chymesuredd i’n cwsmeriaid.

Rydym yn croesawu mewnbwn gan bob aelod o’r grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau wrth lunio ein rhaglenni gwella a’n safonau cyflawni.

## Gwybodaeth fanwl am gostau

Dywedoch chi:

- Mae Confor eisiau gwybod beth yw’r incwm presennol o grantiau ac a yw hyn yn ddigon i dalu costau trwyddedau torri coed. Ni ddarperir unrhyw fanylion cryno ac nid yw hyn yn ddefnyddiol wrth bennu proffil cost/incwm cyffredinol CNC.

Ein hymateb:

Byddwn yn ystyried sut i rannu gwybodaeth am gostau gwasanaethau a ariennir gyda’r grŵp ymgynghorol o dalwyr taliadau.

**Gweithgarwch gorfodi o ganlyniad i gwynion blinderus**

Dywedoch chi:

- Rydym yn nodi bod gweithgarwch gorfodi CNC yn cael ei ariannu drwy gymorth grant a bod ffynonellau eraill o gyllid ac adnoddau yn cael eu hystyried i gryfhau gallu gorfodi CNC. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn poeni fwyfwy am ddull CNC o adennill costau mewn perthynas â gwaith cydymffurfio heb ei gynllunio. Rydym yn poeni bod CNC yn codi taliadau o ganlyniad i ymgyrchoedd blinderus a chyfundrefnol, sy'n ymddangos fel pe baent ar gynnydd, ac sy'n effeithio'n anghymesur ar rai sectorau ffermio. Mae'n bwysig i CNC werthfawrogi nad yw adroddiadau o'r fath yn dod i law oherwydd bod mater i fynd i'r afael ag ef, ond oherwydd y gallai fod gwrthwynebiad lleol i fath o system ffermio. Byddai'n annheg iawn i weithredwyr orfod ysgwyddo costau ychwanegol i ddelio â chwynion di-sail.

Ein hymateb:

Rydym yn ansicr o'r hyn a olygir gan 'waith cydymffurfio heb ei gynllunio' gan fod gwaith cydymffurfio CNC yn cael ei gynllunio. Credwn eich bod yn cyfeirio at weithgaredd sy'n ymwneud ag ymateb i ddigwyddiad.

Mae egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn sail i'r rhan fwyaf o daliadau CNC. Yn achos digwyddiadau o lygredd, lle bynnag y bo modd, mae CNC yn ceisio adennill oddi wrth y llygrwr yr holl gostau rhesymol sy'n deillio o'r broses o ymdrin â'r digwyddiad, naill ai drwy adennill costau'r digwyddiad neu drwy orfodi.

Mae gan staff CNC sy'n ymateb i adroddiad o lygredd bwerau cyfreithiol i adennill costau ar gyfer presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad a brofwyd sy'n ymwneud â llygredd dŵr drwy Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995. Am hyn, rydym yn codi tâl ar gyfradd o £125 yr awr.

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer achosion o lygredd dŵr yr ydym yn ceisio adennill ein costau. Nid ydym ar hyn o bryd yn codi tâl am dorri coed yn anghyfreithlon, digwyddiadau gwastraff, neu ddigwyddiadau tân.

Mae unrhyw gamau dilynol sy'n ymwneud â gorfodi yn cael eu hariannu gan gymorth grant. Gall y costau sy'n gysylltiedig â gorfodi fod yn rhan o ddyfarniad costau os cymerir camau cyfreithiol yn llwyddiannus. Amlinellir hyn yn ein polisi gorfodi a sancsiynau.

Rhaid i CNC godi tâl am bob digwyddiad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol:

• Pan fo corff dŵr a reolir yn cael ei lygru (gan gynnwys digwyddiadau o lygredd a achosir gan ollyngiad dŵr sy'n cydymffurfio â'i drwydded), neu

• Pan fo CNC neu gontractwyr yn cynnal gwaith ymchwilio ac ymateb fel mesur ataliol i osgoi neu liniaru llygredd corff dŵr a reolir, neu

• Pan fo CNC wedi nodi'r llygrwr. Rhaid cael digon o dystiolaeth i adnabod y llygrwr ar 'gydbwysedd tebygolrwydd'. Mae hyn yn ddigonol i weithredu yn y llys sifil i adennill costau. Mae baich prawf uwch er mwyn erlyn yn y llys troseddol am y digwyddiad o lygredd.

• Pan ganfyddir sylweddau sy’n achosi perygl sydd ar fin digwydd neu lygredd difrifol i’r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol.

Sylwch, pan fydd CNC yn ailgodi tâl am gost ymateb, bydd digwyddiad o lygredd wedi digwydd. Mae’n annhebygol iawn felly y byddai ‘cwyn flinderus’ yn arwain at daliadau.

Gall CNC, o dan ddeddfwriaeth adennill costau digwyddiadau, ailgodi tâl am y canlynol:

• Teithio i’r digwyddiad ac oddi yno

• Olrhain ffynhonnell y llygredd

• Pob gwaith adfer/ataliol brys

• Yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir

• Yr holl samplau dadansoddi a gymerwyd wrth nodi ffynhonnell

O dan gostau gorfodi

• Asesu’r effaith posib ar ddyfroedd derbyn

• Pob sampl ddadansoddi a gymerwyd

• Unrhyw gostau arbenigol ychwanegol eraill, e.e. ailstocio pysgod

• Unrhyw oruchwyliaeth barhaus

**Tryloywder**

Dywedoch chi:

- Dylai taliadau fod yn dryloyw, gan roi cyhoeddusrwydd clir i’w cyfansoddiad. Dylid ei gwneud yn glir mai dim ond y costau uniongyrchol hynny sy’n berthnasol i’r drwydded dan sylw y mae’r taliadau’n eu talu, ac nid y costau mwy cyffredinol hynny sy’n gysylltiedig ag CNC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio cysylltiedig megis monitro’r amgylchedd yn gyffredinol.
- Yn unol â’r egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu, byddai’n ddefnyddiol pe bai canlyniad yr ymgynghoriad yn nodi’n glir sut mae taliadau’n cael eu hasesu ar draws gwahanol sectorau i sicrhau bod dull cymesur yn cael ei ddefnyddio.
- Fel rhan o egwyddor tryloywder penderfyniadau codi tâl, hoffem ddeall sut y bydd y taliadau arfaethedig yn cefnogi gwelliannau yn y lefelau o wasanaeth cwsmeriaid y byddwn yn eu cael. Er enghraifft, nid yw ceisiadau am drwyddedau a wnawn yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod a nodir yn y canllawiau craidd ar drwyddedu amgylcheddol (rhwng tri a phedwar mis). Gall oedi o’r fath fod â’r potensial i gynyddu ein costau ymhellach wrth gyflawni cynlluniau ac wrth ymgymryd â gweithgareddau gweithredol, ac o’r herwydd gall arwain at oedi o ran y buddion cysylltiedig i gwsmeriaid a’r amgylchedd. Gyda chynnydd sylweddol ym maint y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yng Nghynllun Rheoli Asedau 8, bydd angen i CNC gael adnoddau priodol i gwrdd â’r gofynion o ran trwyddedu a fydd yn gysylltiedig â chyflwyno rhaglen lwyddiannus o ran gwella’r amgylchedd o dan Gynllun Rheoli Asedau 8. A allwch chi rannu cynllun gwella darpariaeth gwasanaeth y bydd y taliadau

arfaethedig yn ei gefnogi a all fynd tuag at ddangos y gwerth sy'n cael ei ychwanegu at ein cwsmeriaid o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnydd mewn taliadau?

- Unwaith eto, wrth hyrwyddo tryloywder, byddem yn croesawu adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol CNC ar gyfer trwyddedu er mwyn gallu olrhain gwelliannau o'r fath. Gyda tharged effeithlonrwydd CNC yn cael ei ychwanegu, byddai hyn yn dangos a yw'r gwelliannau arfaethedig i reoleiddio a monitro'r sector dŵr yn cael eu cyflawni drwy reoleiddio call ac effeithlon.

Ein hymateb:

Mae CNC wedi defnyddio egwyddorion adennill costau llawn yn unol â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* i bennu'r taliadau arfaethedig ar gyfer ceisiadau am drwyddedau.

Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn cyfarwyddo na ddylem wneud elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Felly dim ond adennill ein costau y caniateir i ni ei wneud.

Mae'r incwm o bob cyfundrefn yn cael ei reoli ar wahân ac rydym yn asesu'n rheolaidd i ba raddau y mae pob cyfundrefn yn adennill costau. Ni allwn roi cymhorthdal o ffynonellau cyllid eraill ac ni allwn leihau diffyg mewn un gyfundrefn drwy gymryd arian oddi wrth un arall. Mae unrhyw gynnig i godi neu ostwng tâl yn benodol i'r drefn honno.

Rydym wedi cyfrifo pob tâl drwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar bob math o drwydded, faint o amser y maent yn ei gymryd i'w prosesu, a'r costau o wneud hynny. Yna defnyddir dull teg a chymesur o ddyrannu costau gweithgareddau anuniongyrchol ar sail lefel y gweithgaredd uniongyrchol. Rydym yn credu bod ein methodoleg yn gadarn ac yn cydymffurfio â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac egwyddorion rheoleiddio.

O ran ein taliadau trwyddedu newydd a diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2023, cawsom hefyd adolygiad annibynnol maith gydag uwch staff Llywodraeth Cymru ar dystiolaeth sylfaenol ein taliadau, gan ddod i ganlyniad a roddodd sicrwydd cyffredinol i'r Gweinidog i gymeradwyo ein cyfres o gynigion yn yr Adolygiad Strategol o Daliadau.

Mae ein taliadau parhau blynyddol yn seiliedig ar risg ac ar hyn o bryd yn adlewyrchu lefelau gwasanaeth ac adnoddau cyfredol. Mae ein taliadau parhau a sut rydym yn eu cyfrifo yn rhan o raglen waith tymor hwy i adolygu'r holl daliadau ac mae hyn bellach ar y gweill.

Yng nghyd-destun Cynllun Rheoli Asedau 8, bydd y cynnydd mewn taliadau yn ein galluogi i symud i adennill costau llawn, gan sicrhau y bydd digon o staff yn cael eu recriwtio i ddarparu gwaith trwyddedu sy'n gymesur â graddfa'r rhaglen ddisgwyliedig. Mae methiannau i gyrraedd targedau penderfyniadau statudol wedi bod yn rhannol oherwydd materion adnoddau sy'n wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus, ond yn yr un modd oherwydd ansawdd y ceisiadau. Rydym yn gweithio'n agos gyda diwydiant i wella ansawdd ceisiadau ac i sicrhau ceisiadau amserol sy'n mynd i'r afael â therfynau amser hanfodol i gwsmeriaid ac unrhyw fannau cyfyng o ran adnoddau.

Byddwn yn ystyried pa wybodaeth ychwanegol y gallwn ei chynnwys yn ein hadroddiad rheoleiddio blynyddol ar ein perfformiad trwyddedu, ond gallwn

gadarnhau ein bod yn bodloni tua 80% o’r amserlenni statudol ar gyfer ceisiadau ansawdd dŵr a thua 90% ar gyfer y gwasanaeth cyfan. Nid oes gennym gynllun gwella darpariaeth gwasanaeth penodol i’w rannu ond byddwn yn ystyried cyfathrebiadau priodol i hysbysu ein defnyddwyr gwasanaeth.

**Effeithlonrwydd**

Dywedoch chi:

- Mae’r rhagdybiaeth sy’n sail i’r cwestiwn hefyd yn awgrymu bod y gwasanaethau rheoleiddio a ddarperir gan CNC yn effeithlon, yn gosteffeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Rydym yn glir nad dyma brofiad aelodau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru sy’n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, nid ydym yn credu ei bod yn deg i CNC drosglwyddo costau ei wasanaethau i’r rhai y mae’n eu rheoleiddio lle gellid cyflawni gwelliannau ac, felly, arbedion cost. Mae’n siomedig nad oes unrhyw gynnydd wedi’i wneud yn y maes hwn, ac rydym yn awgrymu nad oes llawer o gymhelliant o fewn CNC i fynd ar drywydd arbedion effeithlonrwydd pan fydd egwyddorion adennill costau’n caniatáu i arferion gwaith aneffeithlon ymwreiddio yn y sefydliad.

Ein hymateb:

Mae CNC wedi ymrwymo i wella ein prosesau’n barhaus trwy eu gwneud mor syml ac effeithlon â phosibl, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr a llai o faich ar fusnes.

Mae gwasanaethau CNC wedi bod yn adfer ac o dan bwysau ariannol ers peth amser. Mae hyn wedi effeithio ar lefel y gwasanaeth y gallwn ei darparu. Er ein bod yn ceisio gwella ein ffyrdd o weithio yn barhaus, rydym wedi bod yn gwneud mwy gyda llai oherwydd dibrisiant, diffyg cynnydd mewn taliadau, a newidiadau sefydliadol, gan gynnwys cyfyngiadau recriwtio tra bod cymhlethdod ein gwaith wedi cynyddu. Mae hyn wedi cael effaith ar y gwasanaeth a ddarparwn.

Er bod yr adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar feysydd sy’n gweithredu ar ddiffyg a thaliadau chwyddiant angenrheidiol i adennill costau, rydym yn dechrau adolygiadau manylach o daliadau parhau.

Mae ymatebion i feysydd eraill uchod yn disgrifio ein bwriadau i wella ein gwasanaethau i gyd-fynd â’r safonau rheoleiddio yr ydym yn anelu atynt.

## Ystyriaethau o ran y Gymraeg

### A allai’r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg?

**Dim ymateb.**

### A oes modd i ni gynyddu defnydd o’r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg?

**Dim ymateb.**

### A oes unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl o dan anfantais o ran defnyddio’r Gymraeg?

Dywedoch chi:

Barn gref Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yw bod ffermydd Cymraeg ffyniannus yn sail i Gymraeg lewyrchus mewn ardaloedd gwledig; bydd unrhyw gynigion sy’n gwanhau’r sector ffermio yn y pen draw yn gwanhau’r Gymraeg a’r hyn sy’n ein diffinio fel pobl a chenedl. Mae ffermio, felly, yn ganolog i ddyfodol y Gymraeg. Mae llawer o fusnesau ffermio wedi datblygu mentrau amgen i ddarparu ffrwd incwm ychwanegol i gadw’r busnes teuluol yn hyfyw ac i sicrhau cyfleoedd i’r genhedlaeth nesaf aros o fewn y busnes a byw yn yr ardal. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn parhau i bryderu bod CNC, trwy ei drefn codi tâl, wedi methu â chydnabod yr effeithiau negyddol ar ffermydd teuluol Cymreig a phwysigrwydd sylfaenol diwydiant ffermio bywiog ac economaidd hyfyw yng Nghymru fel sail i’r Gymraeg.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a wnaed uchod o ran y Gymraeg.

Rydym yn rhannu balchder mewn cefnogi’r Gymraeg, gan gydnabod sut mae’r iaith yn ein diffinio fel pobl ac fel cenedl, ac yn ein cysylltu â’n hadnoddau naturiol a’n cymunedau.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddiol, atal llygredd, a chyfrannu at fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur.

### A ydych yn credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

Dywedoch chi:

- Dim

## Y camau nesaf

Ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd, rydym wedi penderfynu symud ymlaen â’r taliadau arfaethedig.

Rydym yn bwriadu gweithredu’r taliadau wedi’u diweddaru ar 1 Ebrill 2025 yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## Atodiad 1 – Cynigion yr ymgynghoriad ar daliadau

Gellir dod o hyd i'r cynigion manwl fel y'u hamlinellwyd yn yr ymgynghoriad drwy ddilyn y dolenni canlynol.

[Consultation on our regulatory fees and charges for 2025/2026 - Natural Resources Wales Citizen Space - Citizen Space]

[Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2025/26]

## Atodiad 2 – Ymatebion ysgrifenedig llawn i'r ymgynghoriad

**Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU:**

| A fydd lwfansau'n cael eu rheoleiddio'n dynn? |
|---|
| Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru o'r farn y gallai rhai codiadau mewn prisiau (yn enwedig ar gyfer ysbytai ac allyrwyr bach) fod yn heriol i weithredwyr eu fforddio. Byddem felly yn fwy cefnogol i gynnydd graddedig. Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn pryderu bod cyllideb y GIG eisoes dan bwysau ac y gallai'r cynnydd mewn prisiau arwain at ddargyfeirio cyllid o wasanaethau gofal iechyd critigol. Bydd cyflwyno'r newid hwn gydag amser cyfyngedig i baratoi ar gyfer y cynnydd yn fwyaf tebygol o gael effaith ar y gwasanaethau hyn. |
| Byddai Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn gefnogol iawn i welliant yn y canllawiau a'r gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan CNC i wella ansawdd ceisiadau, a ddylai yn ei dro wella effeithlonrwydd y broses benderfynu a chostau/ffioedd wedi hynny. |
| Mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn cynrychioli tri sector sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU: sment, calch ac asffalt. Ar gyfer y mecanwaith i addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM), mae'r sector sment wedi'i gynnwys yn CBAM yr UE ac yn CBAM y DU o 2027. Mae'r gosodiadau sment a chalch ym mhrif Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, tra bod gosodiadau asffalt yn bennaf yn y cynllun allyrwyr bach. Mae ein haelodau'n cystadlu mewn marchnadoedd byd-eang ac felly gall costau ychwanegol, megis gweithgarwch rheoleiddio, effeithio ar eu gallu i gystadlu'n rhyngwladol. |
| Nodir bod diffyg o £400,000 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU CNC a bod llawer o'r taliadau'n cynyddu o ganlyniad, gydag ambell un yn gostwng. Cydnabyddir y gallai'r newid o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU arwain at ansicrwydd ynghylch yr ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen ar CNC. Fodd bynnag, mae maint y newidiadau'n awgrymu nad yw hyn wedi'i ddeall yn dda iawn ac mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn arbennig o bryderus bod y taliadau arfaethedig yn amrywio'n sylweddol oddi wrth daliadau Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd yn Lloegr. |
| Ar gyfer gosodiadau sy'n derbyn dyraniad am ddim, bydd y newidiadau parhau arfaethedig yn arwain at gynnydd sylweddol mewn ffioedd blynyddol o gymharu â Lloegr, gyda £4,790 yn cael ei gynnig ar gyfer Lloegr o'i gymharu â rhwng £7,486 a £15,867 yng Nghymru. Sut gall CNC gyfiawnhau codi tâl sy'n cymaint mwy? Mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn argymell yn gryf bod CNC yn cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddeall sut y gallant gyflawni'r un gweithgaredd rheoleiddio yn llawer mwy effeithlon ac am bris rhatach. Mae gwahaniaethau sylweddol o'r fath mewn costau rheoleiddio yn rhoi safleoedd yng Nghymru o dan |

| |
|---|
| anfantais gystadleuol o gymharu â safleoedd cystadleuwyr yn Lloegr a rhaid osgoi hyn. Mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn gwrthwynebu'n gryf bod taliadau CNC yn sylweddol uwch na'r rhai a godir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. |
| Mae gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol bryderon hefyd ynghylch y taliadau newydd am drwyddedau, amrywio trwyddedau, a throsglwyddo, ildio a dirymu trwyddedau. Maent yn sylweddol uwch na thaliadau Asiantaeth yr Amgylchedd fel y nodir isod. Mae CNC yn cynyddu rhai o'r taliadau hyn fwy na 100%, tra bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi lleihau sawl un, felly, unwaith eto, sut y gall CNC gyfiawnhau codi taliadau sy'n gymaint mwy? |
| Mae'n bwysig bod CNC yn gweithredu gweithgarwch rheoleiddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y modd mwyaf effeithlon. Byddai'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn disgwyl i daliadau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar draws yr holl reoleiddwyr gael eu halinio'n fras o ystyried bod y gweithgaredd yr un fath, ble bynnag y lleolir y gosodiad. Rydym yn gwrthwynebu'n gryf i CNC godi tâl sylweddol uwch nag Asiantaeth yr Amgylchedd. Rhaid i'r taliadau hefyd adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i gyfranogwyr, felly, lle mae cynnydd, byddem yn disgwyl i ansawdd y gwasanaeth i fusnesau wella. |
| Mae cyhoeddusrwydd a monitro trwyddedeion i gyd yn bwysig os ydych chi eisiau ufudd-dod ac felly arian. |

### Rheolau safonol gwastraff

| A ddylai fod cymhellion ar gyfer perfformiad gweithredu da? |
|---|
| Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn cytuno â'r cynnydd mewn prisiau, ond hoffem gyfleu'r disgwyliad y bydd lefelau gwasanaeth yn gwella o ganlyniad. Hoffai Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru hefyd dynnu sylw at y ffaith y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd rheoleiddio yn cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid cwmnïau gwastraff, a fydd yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sydd â chyllidebau dan bwysau mawr. Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y cynnydd hwn i fod i ddigwydd mewn blwyddyn ariannol sydd hefyd yn gweld lansiad system tracio gwastraff ddigidol, sydd hefyd yn ychwanegiad ariannol i gwmnïau gwastraff. |
| Nid oes gan Fuels Industry UK unrhyw sylw mewn perthynas â'r cynigion codi tâl am drwyddedau rheolau safonol gwastraff. |
| Ddim yn berthnasol i ni. |
| Mae cyhoeddusrwydd a monitro trwyddedeion i gyd yn bwysig os ydych chi eisiau ufudd-dod ac felly arian. |

### Gwastraff y Rhestr Werdd

| |
|---|
| Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn awgrymu gwneud canllawiau clir sy'n benodol i CNC ar gael gan fod mewnforio ac allforio gwastraff yn faes cymhleth o reoleiddio a'r gyfraith.<br>Gyda'r cyllid ychwanegol sy'n dod o'r cynnydd hwn, mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn croesawu'r cyfle i CNC reoleiddio allforion yn fwy rhagweithiol er mwyn atal a mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon.<br>Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyfathrebu'n eang yng Nghymru gan CNC i sicrhau bod |

| |
|---|
| y sector adnoddau a gwastraff yn ymwybodol o hyn ac yn gallu gwneud newidiadau i'w gweithdrefnau a'u harferion mewnol. |
| Nid oes gan Fuels Industry UK unrhyw sylw mewn perthynas â'r cynigion codi tâl ar gyfer gwastraff y Rhestr Werdd. |
| Ddim yn berthnasol i ni. |

### Hysbysiad safle gwastraff peryglus

| |
|---|
| Eich bod yn falch bod y tâl hwn yn cael ei ddileu. |
| Mae Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru yn awgrymu bod CNC yn cynnal tâl ar sail yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd costau gweinyddol uwch yn dilyn gweithredu'r system tracio gwastraff ddigidol. |
